Llangyfelach – datblygu lleoedd awyr agored a chyfleusterau cydweddol fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig

Astudiaeth ddichonolrwydd (2023)

Cyswllt

The means: newid lleoedd er gwell

***The means*, Swyddfa Cymru**

Uned 2, 21-25 West End,

Llanelli, Sir Gâr / Carmarthenshire SA15 3DN

Ffôn / Phone: +44 (0)1554 780170

***The means*, Swyddfa Llundain**

28 Marshalsea Road,

Llundain SE1 1HF

Ffôn / Phone: +44 (0)20 7403 4135

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol....5
1. Cyflwyniad....10
1.1. Briff yr astudiaeth a dull ehangach....10
1.2. Langyfelach – crynodeb o'r prosiect....11
2. Y cynnig cysyniadol ac adolygiad o'r safle....12
2.1. Cynnig....12
2.2. Adolygu'r safle – nodweddion, arweddau ac asedau....12
2.3. Polisïau datblygu lleol....16
3. Cyd-destun lleol....19
3.1. Cefndir lleol, gyrwyr strategol ac amodau Sylfaen....19
3.2. Hamdden, gweithgareddau awyr agored a thwristiaeth....26
4. Ymchwil gynradd ac ymgynghoriad....28
4.1. Crynodeb o'r camau ymgysylltu....28
4.2. Arolwg cymunedol a thrafodaethau grŵp....32
5. Cyfleoedd, egwyddorion datblygu ac opsiynau....39
5.1. Cyfleoedd a heriau'r safle – dadansoddiad SWOT....39
5.2. Cyfle'r 'Farchnad'....40
5.3. Egwyddorion datblygu....41
5.4. Opsiynau datblygu....42
5.5. Gwerthuso'r opsiynau....46
6. Cyflenwi, cyllid ac ariannu....51
6.1. Dull a llywodraethiant cyflenwi....51
6.2. Pennu gofynion ariannol....51
6.3. Datblygu strategaeth ariannol....52
7. Casgliadau cryno ac argymhellion allweddol....55
7.1. Casgliadau cryno....55
7.2. Argymhellion allweddol....58

Tabl Ffigurau

Ffigwr 1: Methodoleg gyffredin....10
Ffigwr 2: Cyfleusterau pentref Llangyfelach – mapio'r ardal / delweddu....14
Ffigwr 3: Cyfleusterau pentref Llangyfelach – ffotograffiaeth / delweddu....15
Ffigwr 4: Map cyfyngiadau a phroblemau (Llangyfelach)....16
Ffigwr 5: Map cynigion LDP Abertawe 2010-2025 (Llangyfelach)....17
Ffigwr 6: Ward ac anheddau Llangyfelach cyn-Mai 2022....19
Ffigwr 7: Ward ac anheddau Llangyfelach wedi-Mai 2022....20
Ffigwr 8: Ffin ward Llangyfelach cyn-Mai 2022....21
Ffigwr 9: Ffin ward Llangyfelach wedi-Mai 2022....21
Ffigwr 10: Poblogaeth ardal – Llangyfelach ac Abertawe....22
Ffigwr 11: Gweithgaredd economaidd (pobl 16-74 oed) – Llangyfelach ac Abertawe....23
Ffigwr 12: Dosbarthiad cymdeithasol-economaidd (NS-SeC) – Llangyfelach ac Abertawe....23
Ffigwr 13: 3 LSOA Llangyfelach....25
Ffigwr 14: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – ward Llangyfelach / Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is....26
Ffigwr 15: Agosrwydd at yr ardal astudio....32
Ffigwr 16: Ystod oedran ymatebwyr....33
Ffigwr 17: Presenoldeb rheolaidd....34
Ffigwr 18: Hyd ymweliadau....34
Ffigwr 19: Hyd ymweliadau ac eithrio ymatebion n/a....35
Ffigwr 20: Ysgogiad tebygol dros ymweld yn y dyfodo....36
Ffigwr 21: Beth hoffai ymatebwyr ei weld yn cael ei gyflwyno / uwchraddio....36
Ffigwr 22: Cefnogaeth i gynigion....37
Ffigwr 23: Annog mwy o ymweliadau....38
Ffigwr 24: Cyfleoedd a heriau'r safle – dadansoddiad SWOT....40
Ffigwr 25: Dadansoddi'r farchnad – grwpiau defnyddwyr allweddol....41
Ffigwr 26: Egwyddorion datblygu....42
Ffigwr 27: Opsiwn un: Sylfaenol – parhau fel y mae....43
Ffigwr 28: Opsiwn dau: Datblygu lleoedd awyr agored a chyfleusterau cydweddol ymhellach fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig....44
Ffigwr 29: Opsiwn tri: Adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysiggyda mwy o apêl ehangach i'r farchnad ymwelwyr....45
Ffigwr 30: Meini prawf gwerthuso opsiynau....47
Ffigwr 31: Sgorio a chymharu gwerthuso opsiynau....49

Crynodeb Gweithredol

Mae Cyngor Cymuned Llangyfelach, Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach ac Eglwys Dewi Sant a Chyfelach yn archwilio cyfleoedd i ehangu ar gyfleusterau a gwasanaethau a'r defnydd o le allanol o amgylch lawnt y pentref fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig i gymunedau lleol.

Dan arweiniad The means, nod yr astudiaeth ddichonoldeb oedd amlygu syniadau a'u mireinio, ac ystyried sut y gellir eu datblygu mewn cynnig cyflenwol a chydlynol.

Mae Pennod 1 yn disgrifio briff yr astudiaeth, y dull gweithredu ehangach a chrynodeb o'r prosiect. O ystyried man cychwyn yr astudiaeth, canolbwyntiodd y nodau'n fwy ar gynnal dadansoddiad rhagarweiniol a ffurf achos busnes i nodi'r bylchau / galw canfyddedig, atebion / dewisiadau, opsiwn(opsiynau) a ffefrir a dull gweithredu.

Mae **Pennod 2** yn amlinellu **cysyniad y cynnig a'r adolygiad o'r safle, gan grynhoi'r nodweddion lle, yr arweddau a'r asedau a'r polisïau datblygu lleol**.

Pentref a chymuned tua gogledd Sir Abertawe yw Llangyfelach a thua 4 milltir (6.4km) i'r gogledd o ganol y ddinas.

Mae ardal yr astudiaeth yng nghanol Llangyfelach; o flaen lawnt y pentref. Mae gerllaw'r A48 (i'r gogledd), y B4489 / Heol Abertawe (i'r dwyrain) sy'n rhedeg i gyfeiriad gogledd/de o ganol y ddinas heibio'r A48 a'r M4 (C46) a Heol-y-geifr i'r gorllewin.

Mae'r safle'n cynnwys Eglwys a thiroedd Dewi Sant a Chyfelach, Neuadd yr Eglwys / Neuadd Gymunedol, Neuadd y Sgowtiaid a'r gerddi. Mae'r safle ar ochr bryn. Mae'r dopograffeg yn disgyn o'r de i'r gogledd gyda'r Neuadd Eglwys / Gymunedol ar y tir uchaf gyferbyn â lawnt y pentref. Lleolir y Neuadd uwchben tir yr eglwys. Mae llwybr yn arwain drwy'r tiroedd ac yn cysylltu â Heol-y-geifr a phen isaf Neuadd y Sgowtiaid a'r gerddi.

Lleolir tri maes parcio ag arwyneb arnynt gerllaw. Y cyntaf yw'r mannau parcio dynodedig ar gyfer defnyddwyr yr Eglwys a'r Neuadd. Mae'r ail yn fannau a glustnodwyd ar y stryd ar hyd Heol-y-geifr / lawnt y pentref. Mae'r trydydd ar gyfer ymwelwyr â'r Plough and Harrow.

Mae ardal yr astudiaeth o fewn perchnogaeth Yr Eglwys yng Nghymru a Grŵp y Sgowtiaid (6ed Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach).

Mae ardal yr astudiaeth o fewn Ardal Archeolegol Sensitif ac mae'n ffinio â Safle o Bwysigrwydd Natur

Cadwraeth i'r gogledd (Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010-2025).

Mae'r pentref yn ffinio â dwy Ardal Ddatblygu Strategol (SDA) – (D ac E) ac yn agos at SDA arall, i'r gogledd o'r M4.

Mae Llangyfelach o fewn Ardal Sensitif i'r Iaith Gymraeg sy'n cynnwys canol i ogledd Abertawe.

Mewn ardaloedd gwledig, cefnogir cynigion ar gyfer twristiaeth gynaliadwy a hamdden cynaliadwy ble maent yn ceisio gwarchod a gwella treftadaeth naturiol y Sir ac atgyfnerthu cymunedau gwledig bywiog (TR 1: Twristiaeth, Adloniant a Datblygiad Hamdden).

Trafodir y **Cyd-destun lleol** ym **Mhennod 3**, gan amlygu'r cefndir lleol, gyrwyr strategol ac amodau sylfaenol ynghyd â hamdden, gweithgareddau awyr agored a thwristiaeth.

Lleolir pentref Llangyfelach yn ward Llangyfelach.

Llangyfelach yw'r ward â'r boblogaeth 19eg fwyaf yn Abertawe (o 36), ond hi yw'r chweched lleiaf dwys o ran poblogaeth.

Mae'n ward wledig yn bennaf, wedi'i gwahanu rhwng y gogledd a'r de gan draffordd yr M4. Mae'r patrwm anheddu presennol yn adlewyrchu gweithgarwch diwydiannol yr ardal o'i gwreiddiau cynnar mewn cloddio am lo hyd at ddatblygiad gwaith alcam Felindre yn y 1950au. Mae Felindre, safle Eisteddfod Genedlaethol 2006, bellach yn ganolbwynt i gynlluniau ailddatblygu a buddsoddi ar raddfa fawr. Bydd y cynlluniau hyn yn creu parc busnes a gefnogir gan y sector cyhoeddus (Parc Felindre) gan ganolbwyntio ar ddiwydiannau ar eu prifiant fel gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg a defnydd lefel uchel, ynghyd â phentref newydd arfaethedig a fydd yn dod yn gyrchfan byw / gweithio. Mae ardal fawr o'r ward, yn bennaf i'r gogledd o'r M4 a Pharc Felindre, yn wledig ei chymeriad, yn cynnwys ucheldir glaswelltog agored yn bennaf a ffermydd gwasgaredig. Mae ardal Llangyfelach i'r de o'r M4, yn unedig i bob pwrpas â gogledd-orllewin Mynydd-bach a gellir ei chysylltu hefyd ag ehangiad diwydiannol trwm yr ardal. Gwelodd yr ardal ar hyd ochr ddwyreiniol Heol Abertawe (sydd bellach yn ward Pontlliw a Thircoed) ddatblygiadau preswyl sylweddol dros y degawdau diwethaf. Pentref Coedwig Tircoed, Llangyfelach – llecynnau awyr agored a chyfleusterau cydweddol fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig i'r gogledd o Gyffordd 47, yw prif anheddiad arall yr ardal. Pan ddatblygwyd yr anheddiad yng nghanol yr 1980au, bwriadwyd adeiladu Tircoed fel pentref hunangynhwysol gydag amwynderau integredig, ar hyd llinellau Poundbury yn Dorset.

Nid yw poblogaeth yr ardal wedi gweld twf yn ystod 2015-2020. Fodd bynnag, mae cyfraddau genedigaethau a marwolaethau ers hynny (ONS, 2020) yn awgrymu bod rhywfaint o dwf wedi bod yn ddiweddar. Bydd datblygu tai yn yr ardal yn peri twf pellach.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn amlygu nad oes unrhyw amddifadedd sylweddol ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd heblaw 'Mynediad at Wasanaethau'. Ar gyfer y maes hwn, mae Llangyfelach 3 wedi'i rhestru yn y 50% o LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn rhif 756 a rhif 42 yn Abertawe. Mae'r parth 'Mynediad at wasanaethau' yn nodi amddifadedd o ganlyniad i anallu aelwydydd i gael mynediad at ystod o wasanaethau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer byw o ddydd i ddydd, yn gorfforol ac ar-lein.

Un peth sy'n bwysig i Langyfelach o ran gweithgareddau a llwybrau hamdden awyr agored yw Blwyddyn y Llwybr Croeso Cymru (2023) a dyhead Cyngor Abertawe i ddarparu cymorth pellach i wardiau gogleddol i ledaenu manteision twristiaeth a lleddfu rhywfaint o'r pwysau yn ardaloedd y de yn ystod cyfnodau brig.

Mae **Pennod 4** yn manylu ar yr **ymchwil sylfaenol ar ymgynghori** a gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth hon. Rhoddwyd sawl cam ymgysylltu ar waith i sicrhau bod cynigion yn ymateb i anghenion trigolion ac ymwelwyr a bod y gymuned yn ymwybodol ohonynt ac yn gallu helpu i roi ffurf arnynt.

Yn gyntaf, amlygwyd syniadau oedd yn codi, dan gyfeiriad y partneriaid, i'w datblygu ymhellach. Y bwriad oedd ystyried sut y gellid datblygu'r rhain mewn cynnig cyflenwol a chydlynol. Roedd y syniadau'n cynnwys:

- Neuadd y Sgowtiaid – cyfleusterau ychwanegol a lle tu allan
- Neuadd Eglwys / Gymunedol – cyfleusterau a gwasanaethau ychwanegol
- Tiroedd Eglwys Dewi Sant a Chyfelach – datblygu'r gerddi cymunedol ymhellach
- Cysylltiadau rhwng mannau allanol

Yn ail, cynhyrchwyd arolwg cymunedol i geisio barn ar syniadau'r prosiect a nodi unrhyw rai eraill.

Yn drydydd, cynhaliwyd nifer o sesiynau grŵp gyda'r partneriaid i drafod cynnydd, ymateb i arolygon a mireinio syniadau'r prosiect.

Yn ystod y trafodaethau hyn a law yn llaw â sylwadau a dderbyniwyd drwy'r arolwg, mynegodd y gymuned diddordeb gwirioneddol yn yr hyn sydd ei angen yn yr ardal a'r rôl gymdeithasol a hamdden bwysig y gall y cynigion hyn ei chwarae.

Mae syniadau newydd wedi'u mireinio i gynnwys:

- Mwy o bwyslais ar ddefnyddio gofod allanol ar gyfer Neuadd y Sgowtiaid a thiroedd
- Adnewyddu ardal y brif neuadd o fewn y Neuadd Eglwys / Gymunedol
- Clirio gordyfiant a gwaith adfer i lwybrau a llwybrau mynediad ar dir yr Eglwys
- Pwyslais ar gysylltiadau rhwng llwybrau mynediad y gwahanol gyfleusterau a'u defnyddiau cyflenwol

Disgrifir **Cyfleoedd, egwyddorion datblygu ac opsiynau ym Mhennod 5**. Dehonglwyd materion meintiol ac ansoddol, heriau a chyfleoedd sy'n codi o'r proffil cymdeithasol-economaidd, ymchwil i'r llenyddiaeth a thrafodaethau gyda phartneriaid y prosiect a phobl leol i greu dadansoddiad SWOT. Mae hyn wedi addysgu cyfle'r 'Farchnad', egwyddorion datblygu a'r gwaith o gymharu dewisiadau'r datblygiad gan alluogi cymharu rhesymwaith, nodau gweithredu / darparu a deilliannau er mwyn gwneud yn fawr o gryfderau a chyfleoedd, mynd i'r afael â gwendidau a llesteirio effaith bygythiadau.

Mae'r ymchwil, yr ymgynghoriad a'r asesiad safle'n dangos bod cefnogaeth gref ar gyfer datblygu'r mannau awyr agored a'r cyfleusterau cyflenwol ymhellach fel adnoddau cymdeithasol ac adloniadol pwysig i ateb yn llawnach angen 'cymunedol', anghenion aelodau'r sefydliadau partner, i ymdrin â bylchau yn y ddarpariaeth, a gwella'r gwaith o gynnal a chadw tir Neuadd y Sgowtiaid a thir yr Eglwys, gan ddod â nhw'n ôl i ddefnydd cynaliadwy, creu mannau o ddiddordeb a denu mwy o fywyd gwyllt / bioamrywiaeth.

Cymharwyd tair lefel o opsiynau ymyrraeth / datblygu o ran maint a ffurf:

- Opsiwn un: Sylfaenol – parhau fel y mae
- Opsiwn dau: Datblygu lleoedd awyr agored a chyfleusterau cydweddol ymhellach fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig
- Opsiwn tri: Adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysiggyda mwy o apêl ehangach i'r farchnad ymwelwyr

Cymhwyswyd matrics ar gyfer pob opsiwn i alluogi asesiad gwrthrychol a chymaradwy. Roedd hyn yn cynnwys un ar ddeg o feini prawf yn seiliedig ar ddyheadau, anghenion cymunedol ac egwyddorion datblygu Cyngor Cymuned Llangyfelach, Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach ac Eglwys Dewi Sant a Chyfelach.

Yr opsiwn a gafodd y sgôr uchaf o gryn dipyn yw **Opsiwn dau**: **Datblygu lleoedd awyr agored a chyfleusterau cydweddol ymhellach fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig** gyda sgôr a bwysolwyd o 78.00.

Mae'r opsiwn hwn yn diwallu'n llawnach angen 'cymunedol' fel y'i amlygwyd gan bartneriaid, ymgynghoriad ac ymchwil sylfaenol yr astudiaeth hon, mae'n gwireddu dyheadau partneriaid, yn darparu ar gyfer anghenion y gymuned a demograffeg newidiol, mae'n mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ac yn gwella'r gwaith o gynnal a chadw tir Neuadd y Sgowtiaid a thir yr Eglwys, gan ddod â nhw'n ôl i ddefnydd cynaliadwy, creu mannau o ddiddordeb, a denu mwy o fywyd gwyllt / bioamrywiaeth. Y ffactor risg fwyaf yw'r angen i Gyngor Cymuned Llangyfelach, Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach ac Eglwys Dewi Sant a Chyfelach sicrhau cyllid cyfalaf i weithredu cynigion.

Er bod pob cynnig yn gallu sefyll ar ei ben ei hun a bod iddo fanteision ar gyfer demograffeg benodol y gymuned, gwelir yr effaith fwyaf trwy wireddu pecyn cyflenwol o gynigion sy'n diwallu anghenion 'cymunedol' ac aelodau sefydliadau partner yn llawnach, sy'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'r effaith orau, sy'n mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ac sy'n apelio at ystod eang o ddefnyddwyr.

Mae Pennod 6 yn amlinellu cyflenwi, cyllid ac ariannu. Am fod mwyafrif yr ardal astudio dan berchnogaeth yr Eglwys yng Nghymru a'r Grŵp Sgowtiaid (6ed Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach), byddau angen i'r camau datblygu gael eu harwai gan y ddau sefydliad, gan dynnu ar gymorth ac arbenigedd Cyngor Cymuned Llangyfelach a phartneriaid eraill yn ôl y galw.

Mae gan y cyngor a'r Grŵp Sgowtiaid yn arbennig hanes llwyddiannus o sicrhau cyllid, ac mae gan bob partner brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau a gwasanaethau.

Mae'r bartneriaeth wedi cydnabod y bydd cyfyngiadau ar gyllid o bryd i'w gilydd yn ymwneud â thir yr Eglwys a'r Neuadd Eglwys / Gymunedol. Mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â'r potensial i ffurfio Grŵp Cyfeillion ar dir yr Eglwys ac i un o'r partneriaid brydlesu / rheoli'r Neuadd Eglwys / Gymunedol a fydd yn helpu gyda buddsoddi yn y dyfodol a'r gallu i gael mynediad at ffynonellau cyllid sydd ar gael.

Y ffactor risg unigol mwyaf o ran gallu cyflawni'r cynigion yw sicrhau'r adnoddau cyfalaf angenrheidiol. Bydd angen cytuno ar Strategaeth Ariannu i roi trosolwg o gamau gweithredu, amserlenni a ffynonellau / dulliau ariannu posibl i gyflawni'r opsiwn a ffefrir. Mae sawl ffynhonnell ariannu wedi'u hamlygu ar gyfer ymchwiliad pellach:

- Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) – Cyngor Abertawe yw'r awdurdod arweiniol rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru
- Y Pethau Pwysig (Croeso Cymru / Busnes Cymru)
- Grant Twristiaeth Cyngor Abertawe
- Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair
- Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru

Disgrifir Casgliadau cryno ac argymhellion allweddol ym Mhennod 7. Drwy adeiladu ar y dadansoddiad ac adolygu'r egwyddorion datblygu a'r dewisiadau datblygu, daethpwyd at chwe argymhelliad.

Argymhelliad 1 – Dylid mynd ar drywydd yr opsiwn a ffefrir: 'Datblygu rhagor o leoedd awyr agored a chyfleusterau cyflenwol fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig'.

Argymhelliad 2 – Dylid datblygu cynigion a'u cyflwyno fel pecyn cydlynol a chyflenwol sy'n gwneud defnydd llawn o'r ystod o gyfleusterau ac adnoddau ac sy'n apelio at ystod eang o ddefnyddwyr.

Argymhelliad 3 – Yr Eglwys yng Nghymru / grŵp gwirfoddol a Grŵp y Sgowtiaid (6ed Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach) ddylai fod yn arweinwyr ar gyfer y cyfnodau datblygu gan dynnu ar Gyngor Cymuned Llangyfelach a chefnogaeth ac arbenigedd partneriaid eraill yn ôl yr angen.

Argymhelliad 4 – Dylid cytuno ar **Strategaeth Ariannu** i roi trosolwg o gamau gweithredu, amserlenni a ffynonellau / dulliau ariannu posibl i gyflawni'r opsiwn a ffefrir. Dylid ymchwilio ymhellach i sawl ffynhonnell ariannu gyda golwg ar gyflwyno ceisiadau am yr adnoddau cyfalaf angenrheidiol.

Argymhelliad 5 – Dylid rhoi ystyriaeth bellach i fanteision a chymhlethdodau **ffurfio Grŵp Cyfeillion ar gyfer tir yr Eglwys** gyda golwg ar barhau â'r hyn a gyflawnwyd gan y grŵp gwirfoddol ymroddedig ac agor mwy o gyfleoedd i sicrhau cyllid.

Argymhelliad 6 – Dylid cael trafodaethau pellach i ddod i gytundeb ynghylch **a yw'n ymarferol i un o'r partneriaid brydlesu / rheoli'r Neuadd Eglwys / Gymunedol**.

1. Cyflwyniad

1.1. Briff yr astudiaeth a dull ehangach

Mae ymestyn y Cynllun Datblygu Gwledig a'r pecyn ariannu yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â rhai o'r problemau a'r heriau sy'n wynebu wardiau gwledig gogleddol y Ddinas a'r Sir, yn enwedig yn Llangyfelach, Mawr, Pontarddulais a Phenclawdd.

Dros y pedwar mis diwethaf, mae The means, mewn partneriaeth â Planning Solutions Consulting, wedi bod yn cynnal cyfres o astudiaethau dichonoldeb ar ran Partneriaeth Ddatblygu Abertawe Wledig i gefnogi adfywio cymunedol cynaliadwy yng ngogledd Abertawe wledig. Cymhwyswyd methodoleg gyffredin ar draws astudiaethau dichonoldeb ar gyfer pob maes, er bod y canlyniadau gofynnol yn wahanol, a fydd yn hwyluso cael llwyfan i wneud cais am gyllid. Crynhoir hyn yn y siart isod.

Ffigwr 1: Methodoleg Gyffredin

O ran astudiaethau dichonolrwydd:

- Dechreuodd y comisiwn gyda gweithdy cynnull i drafod y cefndir a'r materion allweddol, casglu gwybodaeth berthnasol, cadarnhau manylion cyswllt rhanddeiliaid / partneriaid allweddol a mireinio a chwblhau'r rhaglen waith lawn.
- Rhoddwyd Cynllun Ymgysylltu manwl ar waith ar gyfer pob un o'r pedair ardal i sicrhau bod grwpiau cymunedol lleol a rhanddeiliaid allweddol yn cymryd rhan yn y gwaith dichonoldeb.
- Seilir yr astudiaethau dichonoldeb ar dystiolaeth. Mae pob astudiaeth wedi cynnwys dadansoddiad o angen, cyfleoedd a thargedu ar ffurf dadansoddiad a phroffil gyda dadansoddiad econometrig priodol ac asesiad o alw'r farchnad ar gyfer pob ardal.
- Bu’r allbwn yn ystod o opsiynau o gylch y cyfleoedd datblygu ac argymhellion ynglŷn â'r ffordd ymlaen.

Roedd pob maes astudiaeth ar wahanol gamau o ran cynnydd – roedd gan rai ffocws penodol eisoes wedi’i gytuno, roedd rhai ar y ffordd at benderfynu ar y dull a ffefrir ac eraill â chwmpas ehangach i ddechrau ac angen cytuno ar faes diddordeb penodol. Y bwriad oedd i'r astudiaethau mwy datblygedig brofi'r rhesymeg, cynhyrchu sawl opsiwn a chytuno ar yr opsiwn a ffefrir. I eraill, y bwriad oedd nodi angen, maes diffiniedig a chwmpasu hyn gyda naratif sy'n arwain at brosiectau a nodwyd.

Un o nodweddion craidd yr astudiaethau fu alinio â nodau ac amcanion y Strategaeth Datblygu Lleol a gweledigaeth Un Blaned.

1.2. Llangyfelach – crynodeb o'r prosiect

Ar adeg comisiynu, roedd gan Langyfelach gwmpas ehangach. Bwriad y cyfnod cychwynnol o waith oedd nodi gyda **Chyngor Cymuned Llangyfelach a phartneriaid gan gynnwys Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach ac Eglwys Dewi Sant a Chyfelach** yr hyn y dylid ei gynnwys yn yr astudiaeth ddichonoldeb – beth fyddai o fudd i'r ardal ac yn ennyn diddordeb a chefnogaeth ar gyfer cyfleoedd ariannu yn y dyfodol. Cwmpas yr astudiaeth wedyn oedd cael cymeradwyaeth Cyngor Abertawe, fel yr awdurdod cytundebu, i sicrhau bod nodau ac amcanion cyllid y comisiwn yn cael eu dilyn. O ystyried man cychwyn yr astudiaeth, mae ei **nodau wedi canolbwyntio'n fwy ar gynnal dadansoddiad rhagarweiniol a ffurf achos busnes i nodi'r bylchau / galw canfyddedig, atebion / dewisiadau, opsiwn(opsiynau) a ffefrir a dull gweithredu**.

Drwy ymgynghori â'r cyngor a phartneriaid, cytunwyd ar gyfleusterau a mannau cymunedol pwysig o amgylch lawnt pentref Llangyfelach fel yr ardal astudio – yn benodol Neuadd y Sgowtiaid (a'r tiroedd), tiroedd Eglwys Dewi Sant a Chyfelach a'r Neuadd Eglwys / Gymunedol. Wrth i'r comisiwn fynd rhagddo, daeth y cysylltiadau rhwng mannau awyr agored yn elfen allweddol er mwyn galluogi cynigion i fod yn fwy cydlynol a chael effaith fwy ac ehangach. Byddai gwasanaethau a chyfleusterau'n cael eu hanelu'n bennaf at y gymuned leol gyda pheth cyfle i gynnwys ardaloedd cyfagos a denu ymwelwyr / pobl o'n bellach i ffwrdd trwy gyfrwng tir Neuadd y Sgowtiaid a chysylltiadau rhwng mannau allanol. Daeth y partneriaid allweddol yn rhan annatod o nodi a llunio cynigion.

2. Y cynnig cysyniadol ac adolygiad o'r safle

2.1. Cynnig

Mae Cyngor Cymuned Llangyfelach, Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach ac Eglwys Dewi Sant a Chyfelach yn chwilio am gyfleoedd i ehangu ar gyfleusterau a gwasanaethau, a'r defnydd o le tu fas o amgylch **lawnt y pentref** fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig i gymunedau lleol.

Dan arweiniad The means / Y modd mae'r astudiaeth ddichonoldeb wedi ceisio nodi a mireinio syniadau sy'n dod i'r amlwg ac ystyried sut y gellir datblygu'r rhain mewn cynnig cyflenwol a chydlynol. Ymysg y syniadau sy'n dod i'r amlwg mae:

- Neuadd y Sgowtiaid – cyfleusterau ychwanegol a gofod allanol
- Neuadd Eglwys / Gymunedol – cyfleusterau a gwasanaethau ychwanegol
- Tiroedd Eglwys Dewi Sant a Chyfelach – datblygiad pellach o erddi cymunedol
- Cysylltiadau rhwng mannau allanol

2.2. Adolygu'r safle – nodweddion, arweddau ac asedau

Pentref a chymuned tua gogledd Sir Abertawe yw Llangyfelach a thua 4 milltir (6.4km) i'r gogledd o ganol y ddinas. Mae'r ardal o fewn ward Llangyfelach ac mae'n rhan o Etholaeth ehangach Cynulliad Cymru a Senedd y DU Gŵyr. Mae'n un o 39 ardal gymunedol yn Abertawe ac un o 24 o gynghorau gweithredol – Cyngor Cymuned Llangyfelach.

Mae cymuned Llangyfelach, a fu ar un adeg yn enw ar blwyf a gynhwysai lawer o gyn Arglwyddiaeth Gŵyr, bellach yn cwmpasu ardal lai gan gynnwys safle hen waith alcam Felindre, a gynhaliodd yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2006. Yng nghanol y pentref mae Eglwys Blwyf Dewi Sant a Chyfelach. Mae gan y pentref ei ysgol gynradd ei hun, amlosgfa, Llangyfelach Stores / Swyddfa Bost, tafarn y 'Plough and Harrow', Neuadd Eglwys / Gymunedol a neuadd Sgowtiaid. Ar ffin ogleddol y pentref mae traffordd yr M4 (Cyffordd 46) a'r A48.

Lleolir ardal yr astudiaeth yng nghanol Llangyfelach; o flaen lawnt y pentref. Mae gerllaw'r A48 (i'r gogledd), y B4489 / Heol Abertawe (i'r dwyrain) sy'n rhedeg i gyfeiriad gogledd / de o ganol y ddinas heibio'r A48 a'r M4 (C46) a Heol-y-geifr i'r gorllewin.

Mae'r safle'n cynnwys Eglwys Dewi Sant a Chyfelach a'r tiroedd o'i hamgylch, y Neuadd Eglwys / Gymunedol, Neuadd y Sgowtiaid a'r tiroedd o'i chwmpas. Mae'r safle ar ochr bryn. Mae'r dopograffeg yn disgyn o'r de i'r gogledd gyda'r Neuadd Eglwys / Gymunedol ar y lefel uchaf gyferbyn â lawnt y pentref. Lleolir y Neuadd uwchben tir yr eglwys. Mae llwybr yn arwain drwy'r tiroedd ac yn cysylltu â Heol-Y-Geifr a phen isaf Neuadd y Sgowtiaid a'i dir.

Lleolir tri maes parcio ag arwyneb arnynt gerllaw. Y cyntaf yw'r mannau parcio dynodedig ar gyfer defnyddwyr yr Eglwys a'r Neuadd. Mae'r ail yn fannau a glustnodwyd ar y stryd ar hyd Heol-y-geifr / lawnt y pentref. Mae'r trydydd ar gyfer ymwelwyr â'r Plough and Harrow.

Mae ardal yr astudiaeth o fewn perchnogaeth Yr Eglwys yng Nghymru a Grŵp y Sgowtiaid (6ed Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach).

Neuadd a thir y Sgowtiaid: Mae 6ed Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach yn ffodus ymhlith eu cyfoedion i fod yn berchen ar ddarn mawr o dir a neuadd. Mae ôl troed Neuadd y Sgowtiaid tua 180m^2 (20m o hyd a 9m o led). Bu'r Grŵp yn llwyddiannus yn ddiweddar wrth ariannu gwaith adnewyddu helaeth ar y neuadd, sydd wedi gwella'i gyfleusterau'n sylweddol. Codwyd wal ddringo uchel, liwgar, bwrpasol. Gosodwyd storfa bwrpasol ar draws lled y neuadd. Ceir toiledau newydd gyda mynediad i'r anabl ac adeiladwyd gorsaf newid babanod. Ailadeiladwyd un o'r waliau ochr gan wneud yr adeilad yn fwy aerglos ac ynni effeithlon. Y bwriad yw defnyddio'r gofod hwn fel atyniad i grwpiau sgowtiaid eraill a phlant lleol a hybu ei boblogrwydd fel lleoliad cymunedol.

Mae tua erw o dir o gwmpas (3,960m^2, 132m o hyd a 30m o led). Mae'n hawdd cyrraedd yr ardal o Heol-Y-Geifr ond dioddefodd y llwybr o ordyfiant, ni chafodd ei reoli, a chaiff ei ddefnyddio ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hyn wedi peri fod y gofod yn amhosib ei ddefnyddio. Cydnabu'r Grŵp nad yw'r tiroedd yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial a gwnaethpwyd ymdrech ar y cyd i ddechrau clirio gordyfiant ac agor yr ardal ar gyfer gweithgareddau. Bu'n rhaid cyfyngu hyn hyd yma gan fod yr ardal yn parhau i gael ei thrin ar gyfer canclwm, a chynhelir asesiadau risg a chwiliadau ychwanegol i liniaru effeithiau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cam arwyddocaol ymlaen i'r Grŵp fydd gallu diogelu'r safle drwy godi ffensys.

Mae gwaith wedi'i wneud gyda chefnogaeth Coed Cadw, aelodau'r Grŵp a gwirfoddolwyr i blannu nifer fawr o goed ifanc o amgylch ymylon y safle, a gosod blychau adar. Y bwriad yw datblygu parthau gwahanol ar gyfer tyfu, ardaloedd bywyd gwyllt, mannau chwarae agored a gwersylla.

Nod tymor hwy y Grŵp yw gweld yr ardal gyfan hon yn cael ei hagor ar gyfer ei defnyddio'n helaeth gan ei haelodau a'r gymuned ehangach a rhoi'r neuadd a'r tir ar sylfaen gadarn am ddegawdau i ddod.

Neuadd Eglwys / Gymunedol: Mae ôl troed y neuadd oddeutu 105m^2 (15m o hyd a 7m o led) ac mae'n cynnwys mynedfa / cyntedd, prif neuadd, cegin a chyfleusterau toiled. Mae'r Neuadd Eglwys / Gymunedol yn lle agored braf a all ddal tua 60 o bobl. Prif swyddogaeth y neuadd yw darparu ar gyfer y nifer o grwpiau a digwyddiadau Plwyf a gynhelir trwy gydol y flwyddyn. Mae hefyd ar gael i'w llogi'n breifat am dâl bychan fesul sesiynau dwy awr ac am sesiynau hirach. Ymysg y defnyddwyr presennol mae: Urdd Trefoil, Merched Doeth, Grwpiau Hanes, Clwb Garddio, Clwb Llyfrau, grwpiau cerddoriaeth a chôr, Slimming World, cyngor cymuned lleol a SCCH. Bu'r Neuadd yn cynnal Hyb Cynnes, fel rhan o Fenter Llecynnau Cynnes Abertawe, rhwng 10am a 2pm bob dydd Iau ble gall pobl fynd i gymdeithasu, cymryd rhan mewn gweithgareddau fel gemau bwrdd a mwynhau diod poeth a chawl am ddim. Mae'n cael ei gynhesu'n annibynnol o'r brif eglwys.

Tiroedd ac Eglwys Dewi Sant a Chyfelach: Mae Eglwys Dewi Sant a Chyfelach yn adeilad rhestredig Gradd II*. Mae'r safle'n dyddio'n ôl i'r 6ed ganrif – ble sefydlodd Dewi Sant Nawddsant Cymru fynachlog Geltaidd gynnar. Mae gan yr eglwys bresennol dŵr ar wahân o'r 12fed ganrif (un o blith tri'n unig o dyrrau sydd ar wahân i'w heglwysi yng Nghymru) ac ysgubor ddegwm a addaswyd i weithredu fel yr eglwys bresennol. Yn yr eglwys mae Croes Llangyfelach, carreg Geltaidd o'r 9fed ganrif. Mae'r tir tua 1.2 hectar. Gwnaed gwaith sylweddol gan grŵp gwirfoddol i glirio'r ardal o ordyfiant, ei gwneud hi' haws i'r gymuned ehangach ei chyrraedd, datblygu gardd gymunedol a gosod cychod gwenyn. Y bwriad yw gwneud yr ardal yn fwy hygyrch i'r gymuned ehangach a'u hannog i ymweld, a chymryd rhan yn y gweithgareddau awyr agored sy'n cael eu cynnal gan y grŵp gwirfoddol. Bydd y pwyntiau mynediad a'r llwybrau presennol, o Heol Abertawe i ben a

gwaelod Heol-y-Geifr, yn cael eu cysylltu â'i gilydd i wella mynediad drwy'r tiroedd, ac i gyfleusterau cyflenwol eraill fel Neuadd y Sgowtiaid a'r tiroedd.

Ffigwr 2: Cyfleusterau pentref Llangyfelach – mapio'r ardal / delweddu

Neuadd Sgowtiaid Llangyfelach (blaen y tu fas)

Neuadd Sgowtiaid Llangyfelach (tu fewn)



Neuadd Sgowtiaid Llangyfelach (wal ddringo)

Tir Neuadd y Sgowtiaid
(o'r Neuadd)

Tir Neuadd y Sgowtiaid
(i'r gorllewin o'r Neuadd)

Tir Neuadd y Sgowtiaid
cefn y tir o Heol-Y-Geifr)

Tu fas Neuadd Eglwys / Cymuned

Tu fewn Neuadd Eglwys / Cymuned

Eglwys, tŵr a thiroedd

Tiroedd yr eglwys
(cefn y Neuadd)

Tiroedd yr eglwys
(gardd gymunedol)

Tiroedd yr eglwys
(ardal estyniad yr ardd gymunedol)

Ardal chwarae Plough & Harrow
(wrth ochr tir y Sgowtiaid)

Plough & Harrow
(yn wynebu lawnt y pentref)

Tiroedd yr eglwys
(mynediad ar y ffin at Heol-Y-Geifr)

Ffigwr 3: Cyfleusterau pentref Llangyfelach – ffotograffiaeth / delweddu

2.3. Polisïau datblygu lleol

Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010-2025 (a fabwysiadwyd ar 28 Chwefror 2019) yw'r cynllun datblygu statudol ar gyfer Cyngor Abertawe. Ynghyd â'r cynllun cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040) fe'i defnyddir fel y brif ystyriaeth berthnasol er mwyn llywio penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a chynigion datblygu. Mae'r LDP yn cynnwys datganiad ysgrifenedig a mapiau cynigion sy'n nodi'r ystod lawn o bolisïau a chynigion cynllun i gyflawni "dull cadarnhaol o reoli a hyrwyddo twf, ac i ddarparu'r isadeiledd ategol sydd ei angen i ategu'r newid trawsnewidiol y rhagwelir y bydd Abertawe'n ei brofi fel y ddinas wrth galon Rhanbarth Bae Abertawe".

Mae ardal yr astudiaeth o fewn Ardal Archeolegol Sensitif (ardal wedi'i lliwio'n wyrdd, map isod) ac yn ffinio â Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur i'r gogledd (llinellau lletraws gwyrdd). Dynodwyd yr ardal ehangach fel un o fewn Dalgylch Dŵr Budr. Pennir y dynodiadau hyn gan 'fecanweithiau neu gyrff' eraill ac nid ydynt wedi'u cynnwys ym Mapiau Cynigion yr LDP.



Ffigwr 4: Map cyfyngiadau a phroblemau (Llangyfelach)

Mae'r pentref yn ffinio â dwy Ardal Datblygu Strategol (D ac E) ac yn agos at ADS arall, i'r gogledd o'r M4 (ardaloedd lliw coch, map isod).

Mae Llangyfelach o fewn Ardal Sensitif i'r Iaith Gymraeg sy'n cynnwys canol i ogledd Abertawe.



Ffigwr 5: Map cynigion LDP Abertawe 2010-2025 (Llangyfelach)

Parth y Gogledd ac Ardaloedd Datblygu Strategol (SDAs)

Mae'r strategaeth dwf a ddewiswyd o fewn LDP Abertawe yn cynnig creu nifer cyfyngedig o gymdogaethau newydd cynaliadwy mewn SDAs o fewn yr ardal drefol bresennol neu'n agos ati. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn bod gan SDAs y potensial mwyaf i gyfrannu at weledigaeth ac amcanion strategol y cynllun a darparu llesiant a datblygu cynaliadwy.

Amlygwyd cyfleoedd ar gyfer twf aneddiadau ble y'i cefnogir gan ddarpariaeth isadeiledd.

Mae angen seilwaith isadeiledd i helpu i gynnal cymunedau presennol yn ogystal â chefnogi twf. Noda'r LDP nad yw isadeiledd o'r fath yn debygol o ddigwydd heb ddatblygiad pellach.

Mae Parth y Gogledd yn cynnwys ardaloedd trefol preswyl yn bennaf o gwmpas cyrion Canol Abertawe, gan gynnwys Penlan, Mynyddbach, **Llangyfelach**, a Threforys; a hefyd parciau busnes sydd wedi'u hen sefydlu yn Fforestfach a Waunarlwydd. Yn ystod y degawdau diwethaf bu lefelau isel o adeiladu tai a diffyg diddordeb gan ddatblygwyr mewn nifer o leoliadau o fewn y Parth gan arwain at ddyraniadau UDP heb eu hadeiladu. Mae tua 3,230 o gartrefi newydd yn yr arfaeth yn y Parth hwn. O'r tri safle arfaethedig, mae dau yn y cyffiniau ac yn berthnasol iawn i Langyfelach:

Nod 'SD D i'r gorllewin o Heol Llangyfelach, Penderi' yw creu cymdogaethau newydd mewn datblygiad preswyl sylweddol ei maint, gan ymgorffori cymysgedd o gyfleusterau cymunedol sy'n cynnig cyfle arbennig tua'r de o'r safle i helpu i adfywio ardal o amddifadedd cymharol. Bydd ffordd drwodd newydd yn lleddfu tagfeydd ac mae cyfleoedd ar gyfer cael cysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy a gwella hygyrchedd i ardaloedd i'r gogledd. Mae'r safle hwn yn gorgyffwrdd â Pharth GNW. Mae tua hanner y safle hwn o fewn ward Llangyfelach ac yn gyfagos i ymyl de orllewinol y pentref.

Bydd 'SD E i'r gogledd o Heol Clasemont, Treforys' yn creu cymdogaeth newydd ar safle a hyrwyddir fel 'prosiect etifeddiaeth' gan Ymddiriedolwyr datblygwr gwreiddiol Treforys, trwy ddatblygiad preswyl yn bennaf sy'n ymgorffori ystod o ddefnyddiau ategol eraill, ar safle cynaliadwy i'r gogledd o'r anheddiad

presennol gerllaw swyddfeydd y DVLA ac yn agos at Ganolfan Ardal Treforys. Mae'r safle hwn yn ffinio ag ymyl dwyreiniol Bythynnod Nant-y-Gors / Heol Pantlasau ac mae'n rhannol yn ward Llangyfelach.

Parth y Gogledd Orllewin Fwyaf (GNW) ac Ardaloedd Datblygu Strategol (SDAs)

Mae GNW yn cwmpasu cymunedau ôl-ddiwydiannol fel Gorseinon a Phontarddulais, a drodd yn aneddiadau noswylio'n bennaf a wasanaethir gan Ganolfannau Ardal mawr.

Dyranwyd sawl safle yn y gorffennol at ddibenion cyflogaeth, gan gynnwys safle strategol Felindre ond ni chawsant eu datblygu eto am amryw o resymau.

Dyrennir SDAs o fewn Parth y Gogledd Orllewin (GNW) Fwyaf yn:

'SD G: I'r gogledd-orllewin o gyffordd 46 yr M4, Llangyfelach' sy'n ceisio creu anheddiad cynaliadwy newydd a fydd yn ategu safle cyflogaeth strategol Felindre gerllaw.

Cafodd safle'r hen waith alcam yn Felindre, sydd i'r Gogledd o Gyffordd 46 yr M4, ei baratoi eisoes i'w ddefnyddio fel Parc Busnes Strategol â gwasanaethau ar gyfer defnyddiau B1 a B2 i gynnwys diwydiannau ar eu prifiant, gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg, gwasanaethau lefel uchel a defnyddiau atodol ynghyd â meysydd parcio. Bydd tir yn Felindre yn chwarae rhan allweddol yn nhwf economaidd Abertawe. Bydd y safle strategol hwn yn darparu hyd at 800 o anheddau, gyda 565 yn debygol yn ystod cyfnod y Cynllun.

Mae tir i'r gogledd orllewin o barc busnes Felindre hefyd yn rhoi'r cyfle i greu pentrefi trefol newydd, deniadol, cynaliadwy, o ansawdd uchel gyda'r potensial i barhau i dyfu ar ôl cyfnod y Cynllun. Bydd uwchgynllun ar gyfer y pentrefi'n cael ei gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru.

Cynlluniwyd gosod llwybrau Teithio Llesol o'r safle datblygu preswyl yn bennaf i'r gogledd o Heol Clasemont, Treforys i ogledd-orllewin y safle yn Felindre.

Twristiaeth a Hamdden mewn ardaloedd gwledig

Mewn ardaloedd gwledig, cefnogir cynigion ar gyfer twristiaeth gynaliadwy a hamdden cynaliadwy ble maent yn ceisio gwarchod a gwella treftadaeth naturiol y Sir ac atgyfnerthu cymunedau gwledig bywiog (TR 1: Twristiaeth, Adloniant a Datblygiad Hamdden).

3. Cyd-destun lleol

3.1. Cefndir lleol, gyrwyr strategol ac amodau sylfaen

Yn ddiweddar, gwnaeth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i Gymru gynigion ar sail ei adolygiad o ffiniau etholiadol awdurdodau lleol i'r Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol. Daeth y diwygiadau hyn i'r ffiniau i rym yn Abertawe ers etholiadau llywodraeth leol 2022. Gostyngodd nifer y wardiau yn y sir o 36 i 32. Arweiniodd hyn at ehangu cyffredinol yn Llangyfelach; cynnwys rhan ganolog gogledd / de Mawr wrth golli ei ardal orllewinol i ward newydd Pontlliw a Thircoed (gweler y mapiau ffiniau isod). Bydd lawnt pentref Llangyfelach ac ardal yr astudiaeth yn aros yn ne ddwyrain ward Llangyfelach. Nid oes ystadegau swyddogol ar gael ar gyfer ffin y ward newydd.



Ffigwr 6: Ward ac anheddau Llangyfelach cyn-Mai 2022

Mae hyn hefyd wedi effeithio ar nifer a ffiniau LSOA. Bydd LSOA Llangyfelach 2 yn dod yn rhan o ward Pontlliw a Thircoed a bydd un LSOA neu fwy yn cael eu creu yn ward Mawr / ward estynedig Llangyfelach ar ei newydd wedd. Ni wnaed datganiad swyddogol ynglŷn â sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni. Mae'r ffigurau y cyfeirir atynt ar gyfer ffiniau cyn 2022.

Llangyfelach yw'r ward â'r 19eg boblogaeth fwyaf y sir yn Abertawe (o 36), ond y 6ed lleiaf poblog. Gyda phoblogaeth o 5,100 ac yn gorchuddio arwynebedd o 17.48km ^{2} mae ganddo ddwysedd poblogaeth o 290 o bobl fesul km.[1]

Mae Llangyfelach ward wledig yn bennaf, wedi'i gwahanu rhwng y gogledd a'r de gan draffordd yr M4. Mae'r patrwm anheddu presennol yn adlewyrchu gweithgarwch diwydiannol yr ardal o'i gwreiddiau cynnar mewn cloddio am lo hyd at ddatblygiad gwaith alcam Felindre yn y 1950au. Mae Felindre, safle Eisteddfod Genedlaethol 2006, bellach yn ganolbwynt i gynlluniau ilddatblygu a buddsoddi ar raddfa fawr. Bydd y cynlluniau hyn yn creu parc busnes a gefnogir gan y sector cyhoeddus (Parc Felindre) gan ganolbwyntio ar ddiwydiannau ar eu prifiant fel gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg a defnydd lefel uchel, ynghyd â phentref newydd arfaethedig a fydd yn dod yn gyrchfan byw / gweithio.

Mae ardal fawr o'r ward, i'r gogledd o'r M4 a Pharc Felindre yn bennaf, yn wledig ei chymeriad, yn cynnwys ucheldir glaswelltog agored yn bennaf a ffermydd gwasgaredig.

Mae ardal Llangyfelach i'r de o'r M4, yn unedig i bob pwrpas â gogledd-orllewin Mynydd-bach a gellir ei chysylltu hefyd ag ehangiad diwydiannol trwm yr ardal.

Gwelodd yr ardal ar hyd ochr ddwyreiniol Heol Abertawe (sydd bellach yn ward Pontlliw a Thircoed) ddatblygiadau preswyl sylweddol dros y degawdau diwethaf. Pentref Coedwig Tircoed, Llangyfelach – llecynnau awyr agored a chyfleusterau cydweddol fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig i'r gogledd o Gyffordd 47, yw prif anheddiad arall yr ardal. Pan ddatblygwyd yr anheddiad yng nghanol yr 1980au, bwriadwyd adeiladu Tircoed fel pentref hunangynhwysol gydag amwynderau integredig, ar hyd llinellau Poundbury yn Dorset.

Ffigwr 7: Ward ac anheddau Llangyfelach wedi-Mai 2022

[1] Amcangyfrifon Canol blwyddyn 2020, Swyddfa Ystadegau Genedlaethol (ONS)



Ffigwr 8: Ffin ward Llangyfelach cyn-Mai 2022



Ffigwr 9: Ffin ward Llangyfelach wedi-Mai 2022

Mae gan Langyfelach gyfran ychydig uwch o bobl rhwng 45-64 oed a chyfran is o bobl dros 65 na chyfartaledd y sir.

Poblogaeth ardal	Llangyfelach	Abertawe
Cyfanswm y boblogaeth	5,077	246,563
0-15	17.6%	16.9%
16-64	65.8%	63.3%
65+	16.6%	19.8%

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaethau ardaloedd bach (2020), ONS

Ffigwr 10: Poblogaeth ardal – Llangyfelach ac Abertawe

Nid yw poblogaeth yr ardal wedi gweld twf yn ystod 2015-2020. Serch hynny, mae cyfraddau genedigaethau a marwolaethau ers hynny (ONS, 2020) yn awgrymu bod rhywfaint o dwf wedi bod yn ddiweddar. Bydd datblygu tai yn yr ardal yn gweld twf pellach. Mae cyfran y bobl â chymwysterau lefel uwch, sef 34.7%, yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o 25.8%. Mae'r gallu i siarad Cymraeg ar 16.9% yn uwch na'r cyfartaledd sirol o 11.4%.

Mae gan yr ardal gyfran sylweddol uwch o bobl economaidd weithgar na chyfartaledd y sir gyda gweithwyr (rhan-amser a llawn amser) yn cyfrif am 63.4% o gymharu â 47.9% ar draws Abertawe. O'r rhai sy'n economaidd segur mae canran is o fyfyrwyr. Amcangyfrifir bod cyflogaeth yn yr ardal yn 1,500 o swyddi (amcangyfrif gweithle'r ONS, 2020) a'r prif gyflogwyr yw swyddfeydd rhanbarthol Llywodraeth Cymru, KSR Electronic Systems ac Afon Tinplate.

Gweithgaredd Economaidd (pobl 16-74 oed)	Llangyfelach	Llangyfelach %	Abertawe %
Economaidd Weithredol	**2,860**	**76.3**	**63.0**
Cyflogeion: Rhan amser a llawn amser	2,376	63.4	47.9
Hunangyflogedig	391	7.8	6.6
Di-waith	91	2.4	3.9
Economaidd segur	**886**	**23.7**	**37.0**
Wedi ymddeol	513	13.7	15.6

Gofalu am y cartref neu'r teulu	81	2.2	3.7
Sâl neu anabl hirdymor	106	2.8	6.9
Arall	37	1.0	2.1
Myfyrwyr (economaidd weithredol a segur	251	6.7	13.3

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, ONS

Ffigwr 11: Gweithgaredd economaidd (pobl 16-74 oed) – Llangyfelach ac Abertawe

Mae gan breswylwyr Llangyfelach gyfartaledd lefel uwch o swyddi rheoli a phroffesiynol a chyfraddau is o swyddi cyffredin a llaw na chyfartaledd Abertawe.

Dosbarthiad cymdeithasol-economaidd (NS-SeC)	Llangyfelach	Llangyfelach %	Abertawe %
Pob preswylydd arferol 16-74 oed	3,746	100	100
1-2. Rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol uwch	1,519	40.5	27.5
3-4. Galwedigaethau canolradd	993	26.5	20.3
5-7. Galwedigaethau arferol a gwaith llaw	915	24.4	33.9
8. Erioed wedi gweithio ac yn ddi-waith yn y tymor hir	70	1.9	5.2
Heb eu dosbarthu (myfyrwyr llawn amser)	249	6.6	13.1

Ffynhonnell: NS-SeC – Dosbarthiad cymdeithasol-economaidd Ystadegau cenedlaethol (fersiwn tri dosbarth), Cyfrifiad 2011, ONS

Ffigwr 12: Dosbarthiad cymdeithasol-economaidd (NS-SeC) – Llangyfelach ac Abertawe

Cyfartaledd incwm blynyddol net aelwydydd yn yr ardal yw £31,400, y pumed uchaf yn y sir ac mae'n 17% yn uwch na'r cyfartaledd o £26,900. Caiff hyn ei lywio gan amcangyfrifon yr ONS ar sail model ar lefel MSOA (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol) ar gyfer 2015-16. Ac mae'n defnyddio MSOA Abertawe 004 sy'n cyd-fynd agosaf â ffin y ward. Mae cyfansoddiad yr aelwydydd yn cynnwys llawer mwy o 'barau priod neu bartneriaeth sifil o'r un rhyw' nag Abertawe, sef 44.2% o'i gymharu â 30.4%.

Mae tai ar wahân yn cyfrif am lawer mwy o'r math o lety aelwyd (48.6%) na'r cyfartaledd sirol (23.2%) gyda chanran uwch o lawer o aelwydydd â morgais neu fenthyciad (53.9% o'i gymharu â 30.6%). Gwelodd prisiau tai gynnydd blynyddol mewn gwerth ar gyfartaledd o +£20,000 (+4%) o gymharu â chynnydd o £6,000 (4%) ar draws Abertawe (Ystadegau Prisiau Tai ar gyfer Ardaloedd Bach, ONS, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2020). Mae'r cynnydd blynyddol mwyaf arwyddocaol mewn eiddo ar wahân sydd wedi profi newid o +£48,500 (+4.1%) o flwyddyn i flwyddyn. Y band treth cyngor amlycaf ar gyfer 'stoc annedd' yw C-D o'i gymharu â B-C ar draws Abertawe (cronfa ddata weinyddol Asiantaeth y Swyddfa Brisio, 2020).

Mae'r tabl isod yn cyfeirio at wybodaeth a gasglwyd gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Cynulliad Cymru fel rhan o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019. Mae'n nodi'r mynegai cyffredinol a'r safle ar gyfer yr wyth parth yn 3 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) yn ward Llangyfelach. Mae 1909 LSOA yng Nghymru a 148 yn Abertawe. Po isaf yw'r safle / rhif, yr uchaf yw'r lefel o amddifadedd. Niferoedd mewn cromfachau yw'r safleoedd yn Abertawe. Mae ward Llangyfelach yn cynnwys 3 LSOA – Llangyfelach 1 (cod LSOA W01000791), Llangyfelach 2 (cod LSOA W01000792) a Llangyfelach 3 (cod LOSA W01000793). Lleolir ardal yr astudiaeth yn LSOAs Llangyfelach 1 a 3. Nid oes unrhyw amddifadedd sylweddol ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd heblaw 'Mynediad at Wasanaethau'. Ar gyfer y maes hwn, mae Llangyfelach 3 wedi'i rhestru yn y 50% o LOSAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar 756 a 42 yn Abertawe. Mae'r parth 'Mynediad at wasanaethau' yn amlygu amddifadedd o ganlyniad i anallu aelwyd i gael mynediad at ystod o wasanaethau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer byw o ddydd i ddydd, yn gorfforol ac ar-lein.



Ffigwr 13: 3 LSOA Llangyfelach

Is ac Uwch	**Parthau a Safle**								
Maes Allbwn:	**Cyffredinol**	**Incwm**	**Cyflogaeth**	**Iechyd**	**Addysg**	**Mynediad i wasanaethau**	**Tai**	**Diogelwch cymunedol**	**Amgylchedd ffisegol**
Llangyfelach 1	1749 (119)	1721 (126)	1466 (110)	1436 (107)	1637 (113)	1314 (90)	1813 (140)	1819 (141)	1364 (91)

Llangyfelach 2	1806 (133)	1715 (125)	1655 (127)	1670 (127)	1582 (106)	1347 (91)	1793 (138)	1682 (125)	1272 (79)
Llangyfelach 3	1765 (125)	1840 (142)	1666 (128)	1626 (124)	1743 (125)	756 (42)	1839 (143)	1471 (110)	1653 (124)

	Mwyaf difreintiedig	Safle
	10%	1-191
	20%	192-382
	30%	383-573`
	50%	574-955

Ffigwr 14: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – ward Llangyfelach / Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is

3.2. Hamdden, gweithgareddau awyr agored a thwristiaeth

Daeth twristiaeth a hamdden yn sectorau cynyddol bwysig o economi leol Abertawe wledig, yn enwedig o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr. Mae ardal ehangach Bae Abertawe'n croesawu mwy na phedair miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn.

Yn ôl ymchwil twristiaeth STEAM yn 2019 amcangyfrifir bod 4.79 miliwn o ymwelwyr blynyddol â'r ardal (-0.2% o gymharu â 2018) gyda 3.12 miliwn (-1.6% o gymharu â 2018) yn ymwelwyr dydd a 1.67 miliwn (+ 2.5% o gymharu â 2018) yn ymwelwyr sy'n aros. Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yn yr ardal yw £477.22 miliwn (+2.2% o gymharu â 2018) sy'n cefnogi 5,998 o swyddi (+ 3.4% ers 2018).[2] Canfu arolwg ymwelwyr Bae Abertawe yn 2019 fod yr arfordir, traethau, golygfeydd a thirwedd yn parhau i fod yn atyniadau allweddol gyda cherdded yn weithgaredd allweddol.[3]

Mae'r ardal yn cynnwys nifer o atyniadau poblogaidd, gyda llawer ohonynt yn parhau i fuddsoddi a datblygu eu harlwy yn unol â thueddiadau'r dyfodol a dyheadau ymwelwyr. Er bod llawer o'r rhain o fewn AHNE Gŵyr, ymhlith y prif atyniadau mae Coed Dyffryn Penllergaer (a restrir gan Cadw ar y gofrestr statudol Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig). Fe'i lleolir yn agos at gyffordd nesaf y draffordd i'r gorllewin o bentref Llangyfelach ac o fewn y ward; c.2 milltir / 4 munud o daith mewn car / 36 munud o gerdded ar hyd yr A48. Er mai'r A48 yw'r llwybr mwyaf uniongyrchol, ceir llwybrau troed a ffyrdd sy'n cysylltu Coed Dyffryn Penllergaer â phentref Llangyfelach drwy Ffordd Penplas sy'n cymryd rhyw awr i gerdded.

[2] STEAM (Model Gweithgaredd Economaidd Twristiaeth Scarborough) 2019

[3] Arolwg Ymwelwyr Bae Abertawe 2019, Cyngor Abertawe

Mae'r ardal ehangach yn cynnwys nifer o deithiau cerdded sy'n amlygu lleoliadau a nodweddion diddorol ar hyd y ffordd. Lansiodd Cyngor Abertawe bedwar canllaw cerdded newydd yn ddiweddar fel rhan o gyfres Teithiau Cerdded Arfordir Gŵyr. Pwyslais allweddol yw menter Llwybr Arfordir Cymru Gyfan, sy'n cynnwys y llwybr arfordir 55 milltir o hyd sy'n ymestyn o amgylch holl arfordir Abertawe a Gŵyr.

Bu i'r ardal ehangach hefyd ddatblygu nifer o deithiau bwyd a llwybrau chwilio am fwyd i'w harchwilio trwy fentrau fel Cylch Bwyd Da Bae Abertawe.

Yr hyn sy'n bwysig i Langyfelach o ran gweithgareddau a llwybrau hamdden awyr agored yw Blwyddyn y Llwybr Croeso Cymru a dyhead Cyngor Abertawe i ddarparu cymorth pellach i wardiau gogleddol i ledaenu buddion twristiaeth a lleddfu rhywfaint o'r pwysau yn ardaloedd y de yn ystod cyfnodau brig.

2023 yw Blwyddyn y Llwybr Croeso Cymru – Llwybrau / Wales by Trails. Mae 'Llwybrau Cymru yn deillio o lwyddiant y pum blwyddyn thema a gynhaliodd Croeso Cymru hyd yma: antur, chwedlau, môr, darganfod, awyr agored. Mae'r blynyddoedd thema'n cefnogi'r nod strategol o ledaeniad, gwariant a thymhorau trwy gyflwyno Cymru fel cyrchfan groesawgar, gynhwysol sydd ar agor drwy gydol y flwyddyn. Mae Croeso Cymru'n credu bod thema llwybrau'n cael ei harwain gan brofiad ac yn ddigon syml ar gyfer ystod eang o ddiddordebau a'i bod yn ddigon hyblyg i bartneriaid, cyrchfannau, a busnesau twristiaeth mawr neu fach ymuno â hi i'w chefnogi. Mae pobl ôl-bandemig yn chwilio fwyfwy am brofiadau wedi'u curadu sy'n eu hailgysylltu, boed hynny â threftadaeth, diwylliant, natur, cymuned. Bydd thema'r llwybrau'n annog pobl i ddod o hyd i drysorau anghofiedig, cofleidio teithiau'r synhwyrau a chreu atgofion ar hyd llwybrau o gwmpas atyniadau, gweithgareddau, tirweddau ac arfordiroedd.

Mae rhaglen Leader wedi buddsoddi er mwyn tyfu a datblygu'r cynnyrch twristiaeth, gan gynnwys Cynllun Twf Llety Gwledig y Cynllun Datblygu Gwledig, a sicrhaodd fuddsoddiad i wella darpariaeth llety yn Abertawe wledig. Wrth i raglen Leader ddod i ben, bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a fydd yn gyllidwr sylweddol ar draws y rhanbarth, ac sy'n gweld Cyngor Abertawe fel awdurdod arweiniol rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru, yn sicrhau bod nifer o gronfeydd ar gael gan gynnwys y Gronfa Cymunedau Cynaliadwy a'r Gronfa Arloesi Gwledig.

4. Ymchwil gynradd ac ymgynghoriad

4.1. Crynodeb o'r camau ymgysylltu

Y cysyniad, a ddatblygwyd gyda **Chyngor Cymuned Llangyfelach, Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach ac Eglwys Dewi Sant a Chyfelach**, oedd archwilio cyfleoedd i ehangu ar gyfleusterau a gwasanaethau, a defnyddio mannau awyr agored o amgylch **lawnt y pentref** fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig i gymunedau lleol.

Roedd nifer o brosiectau eisoes wedi'u hystyried gan y partneriaid, sy'n gynrychiolwyr lleol a thrigolion Llangyfelach. Llywiwyd y rhain gan eu gwybodaeth o'r ardal a thrafodaethau gyda'r gymuned ehangach. Rhoddwyd sawl cam ymgysylltu ar waith i sicrhau bod y cynigion yn ymateb i anghenion trigolion ac ymwelwyr ,a bod y gymuned yn ymwybodol ohonynt ac yn gallu helpu i'w siapio.

Yn gyntaf, amlygwyd syniadau oedd yn dod i'r amlwg, dan arweiniad y partneriaid, i'w datblygu ymhellach. Y bwriad oedd ystyried sut y gellid datblygu'r rhain mewn cynnig cyflenwol a chydlynol. Roedd y syniadau'n cynnwys:

- Neuadd y Sgowtiaid – cyfleusterau ychwanegol a lle tu fas
- Neuadd Eglwys / Gymunedol – cyfleusterau a gwasanaethau ychwanegol
- Tiroedd Eglwys Dewi Sant a Chyfelach – datblygu gerddi cymunedol ymhellach
- Cysylltiadau rhwng mannau allanol

Yn ail, cynhyrchwyd arolwg cymunedol i ganfod barn am syniadau'r prosiect a nodi unrhyw syniadau eraill. Byddai'r arolwg hefyd yn cael ei ddefnyddio i nodi pwy sy'n dymuno cael y wybodaeth ddiweddaraf a / neu lywio datblygiad cynigion yn y dyfodol. Roedd yr arolwg ar gael ar-lein gyda dolen a chod QR yn cael eu hyrwyddo ar wefan Cyngor Cymuned Llangyfelach a thudalennau Facebook. Hyrwyddwyd copïau caled a sicrhawyd eu bod ar gael i'w casglu, eu cwblhau a'u gadael yn Neuadd y Sgowtiaid, y Neuadd Eglwys / Gymunedol a Siop / Swyddfa'r Post Llangyfelach.

Yn drydydd, cynhaliwyd nifer o sesiynau grŵp gyda'r partneriaid i drafod cynnydd, ymatebion i'r arolwg, a mireinio syniadau'r prosiect.

Yn ystod y trafodaethau hyn ac ochr yn ochr â sylwadau a dderbyniwyd drwy'r arolwg, mynegwyd diddordeb gwirioneddol gan y gymuned yn yr hyn sydd ei angen yn yr ardal a'r rôl gymdeithasol a hamdden bwysig y gall y cynigion hyn ei chwarae.

Mireiniwyd y syniadau newydd i gynnwys:

- Mwy o bwyslais ar ddefnyddio lle tu fas ar gyfer Neuadd y Sgowtiaid a'i thiroedd
- Adnewyddu ardal y brif neuadd o fewn y Neuadd Eglwys / Gymunedol
- Clirio gordyfiant a gwaith adfer i lwybrau a llwybrau mynediad ar dir yr Eglwys
- Pwyslais ar gysylltiadau rhwng llwybrau mynediad y gwahanol gyfleusterau a'u defnyddiau cyflenwol

Mae'r rhain yn cynnwys:

Llangyfelach

Awydd a pharodrwydd sefydliadau partner i gyfuno'u hymdrechion i gyflawni gweledigaeth gyfunol sy'n gwella cyfleusterau ac yn datblygu prosiectau sy'n cyd-fynd â'i gilydd, yn gwireddu buddion i'w haelodaeth ac yn darparu ar gyfer galw cymunedol ehangach.

"Mae Llangyfelach yn lle hyfryd i fyw ac rydym wedi byw yma ers 36 mlynedd… mae'n bwysig iawn bod cyfleusterau'n cael eu cynnal / datblygu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."

"Mae'r holl gyfleusterau hyn yn helpu i wneud ein pentref yn gymuned go iawn."

"Mae mor bwysig bod y cyfleusterau hyn yn tyfu yn enwedig gyda'r datblygiadau arfaethedig yn yr ardal."

"Mae angen cymorth allanol ar bentref Llangyfelach i hybu ei ysbryd cymunedol ymhellach a sicrhau bod y pentref yn gwella ei awyrgylch a'i gyfleusterau ar gyfer lles yr holl drigolion."

"Byddai unrhyw welliant i gyfleusterau yn y pentref yn cael ei groesawu'n fawr."

"O ystyried ein bod ni'n bentref mawr, rydyn ni'n dlawd o ran mannau ymgynnull anffurfiol yn enwedig y tu fas."

"Does dim digon i'w wneud yn y pentref i blant, yn enwedig y rhai 10+ oed sydd heb ddim i'w diddanu. Byddai'n braf cael gweithgareddau ar gyfer y grŵp oedran hwn."

"Rwyf wedi cysylltu â'r cyngor sawl gwaith i geisio gwneud Llangyfelach yn bentref mwy ystyriol o fywyd gwyllt i gynnal byd natur. O ganlyniad rwyf wedi cysylltu â staff sydd wedi bod mor garedig â gosod blychau adar ac ystlumod yn yr amlosgfa ac mae'r cyngor hefyd wedi rhoi caniatâd i mi blannu mwy o blanhigion sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt yn yr ardal, er fy mod yn meddwl bod mwy i'w wneud."

Ymhelaethu ar ymatebion:

Neuadd y Sgowtiaid – cyfleusterau ychwanegol a lle tu fas

Mae Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach yn ffodus o fod yn berchen ar ddarn mawr o dir nad yw, hyd yn hyn, yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial. Mewn cymuned sy'n brin o fannau glas hygyrch, mae'n ardal bwysig. Mae Grŵp y Sgowtiaid yn awyddus i wneud y defnydd gorau ohono er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl leol (plant a phobl ifanc yn arbennig) ar gyfer gweithgareddau awyr agored a manteision iechyd a llesiant. Mae'r grŵp yn ymwybodol iawn o'r argyfwng byd natur ac yn anelu at wella bioamrywiaeth y safle ac ar yr un pryd addysgu'r genhedlaeth iau am ei bwysigrwydd a chyfleoedd i'w feithrin.

Dros y blynyddoedd diwethaf dechreuodd y grŵp drin canclwm ac agor y lle ar gyfer rhai gweithgareddau cyfyngedig. Y prif broblem y mae angen mynd i'r afael ag ef fel blaenoriaeth yw ffensio'r tir fel mai dim ond y rheini sydd â bwriadau swyddogol ac ystyrlon sy'n gallu cael mynediad iddo. Mae ganddo botensial sylweddol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys ar gyfer y gymuned ehangach. Mynegodd Cyngor Cymuned Llangyfelach, Eglwys Llangyfelach ac Ysgol Gynradd Llangyfelach eu cefnogaeth. Maent wedi nodi yr hoffen nhw weld defnydd ehangach o'r tir ar gyfer digwyddiadau pentref cyfan fel ffeiriau, a

byddent yn croesawu'r cyfle i'w ddefnyddio eu hunain gyda grwpiau o blant fel mannau dysgu / ystafell ddosbarth awyr agored.

Gwnaed sawl awgrym y gellir eu darparu drwy greu parthau gwahanol ar gyfer gweithgareddau amrywiol:

- Gwella mynediad o gefn y neuadd i lawr i'r tir gan gynnwys ramp a rhai grisiau
- Mannau eistedd awyr agored
- Man gwersylla (y gall Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach ei ddefnyddio yn ogystal â grwpiau lleol eraill)
- Popty pizza a man coginio awyr agored
- Gwelyau plannu uchel – llysiau a pherlysiau
- Mannau Chwarae Naturiol – banciau uchel
- Ardaloedd blodau gwyllt
- Mwy o flychau adar / cartrefi draenogod
- Cychod gwenyn (mae'r Grŵp Sgowtiaid wedi cynnal trafodaethau gyda Phrifysgol Caerdydd ynghylch cymryd rhan mewn prosiect ehangach dan arweiniad y brifysgol)

Ymysg awgrymiadau ar gyfer Neuadd y Sgowtiaid a'r tir mae:

"Mae'r grŵp Sgowtiaid yn rhedeg clwb gwych i'r bobl ifanc ac mae'r oedolion / gwirfoddolwyr yn hynod angerddol dros eu rôl ac yn frwd iawn. Byddai'n wych gweld yr ardd yn gwella er mwyn caniatáu mwy o weithgareddau fel y gall y bobl ifanc ennill sgiliau a phrofiadau newydd."

"Mae gwir angen cyfleusterau awyr agored gwell ar neuadd y Sgowtiaid. Mae'r ffordd fawr yn rhwystr mawr i gael mynediad i neuadd y sgowtiaid a neuadd yr eglwys, ffordd mor brysur i'w chroesi gyda phlant a dim croesfannau. Mae lle awyr agored mor bwysig ar gyfer llesiant ac nid yw'n wych o amgylch neuadd y sgowtiaid na neuadd yr eglwys."

"Mwy o le tu fas i sgowtiaid."

"Mae angen gwelliannau awyr agored ar y cwt sgowtiaid er mwyn iddyn nhw allu gwneud mwy o weithgareddau awyr agored."

Neuadd Eglwys / Gymunedol – cyfleusterau a gwasanaethau ychwanegol

Mae'r Neuadd yn chwarae rhan bwysig yn y gymuned, gan weithredu fel canolbwynt y pentref a lleoliad pwysig ar gyfer cynulliadau cymdeithasol. Gwelir y neuadd a'r tir fel "asedau gwerthfawr ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol a chymunedol sy'n dod â'r pentref at ei gilydd". Canolbwyntiodd y sylwadau ar yr angen a'r awydd i ddiweddaru cyfleusterau yno.

Ymysg awgrymiadau ar gyfer ychwanegiadau yn y dyfodol mae:

"Byddai neuadd yr eglwys yn elwa o gyfleusterau cegin a chyfleusterau storio gwell. Mae to'r neuadd yn wynebu'r de felly byddai buddsoddi mewn gosod ynni solar yn helpu'r eglwys i gadw'r neuadd ar agor drwy leihau costau gorbenion."

"Cegin fwy ac ystafell storio i gynnig defnydd o neuadd yr Eglwys i ystod ehangach o ddefnyddwyr."

"Mwy o fuddsoddiad mewn cyfleusterau neuadd eglwys."

"Siop goffi yn cynnwys canolfan ymwelwyr yn yr eglwys. Gan gynnwys amgueddfa fach am fywyd lleol."

Tiroedd Eglwys Dewi Sant a Chyfelach – datblygiad pellach o erddi cymunedol

Ystyrir bod y tiroedd yn ased cymunedol pwysig. Fodd bynnag, gellir annog mwy o ddefnydd o'r tiroedd trwy wella mynediad a darparu seddau a mannau o ddiddordeb. Cydnabuwyd hyn eisoes gan yr eglwys chwaraeodd grŵp gwirfoddol ran allweddol wrth wneud gwelliannau. Cydnabyddir cyfyngiadau'r hyn y gellir ei gyflawni ar hyn o bryd heb gymorth ychwanegol.

Ymysg sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer ychwanegiadau yn y dyfodol mae:

"Mae'r gwaith sydd wedi mynd i mewn i'r fynwent wedi bod yn eithriadol ac mae angen mwy o adnoddau i mewn iddo. Bydd yn annog mwy o bobl i ymweld, a dod â mwy o bobl i'r ardal."

"Byddai datblygu tiroedd yr eglwys ar gyfer gerddi cymunedol yn wych i fywyd gwyllt ac i hapusrwydd, iechyd a lles trigolion."

"Byddai defnyddio'r fynwent i ymgorffori gardd dylwyth teg yn syniad gwych i ddod â theuluoedd i'r ardal."

"Mae mynediad i'r eglwys a thrwy'r fynwent yn anodd i bobl â phroblemau symudedd fel fi. Mewn gwirionedd mae'n rhoi stoi ar ba mor aml y gallaf fynd i'r eglwys a gweld y gwaith gwych y mae gwirfoddolwyr wedi'i wneud i'r gerddi. Efallai y gallai buddsoddiad alluogi gwell llwybrau i'r tiroedd."

"Mynediad anabl i'r eglwys a pharcio cyfleus wrth ei ochr."

"Gwell mynediad i'r anabl yn y fynwent a mwy o leoedd i eistedd."

Cyswllt rhwng mannau allanol

Hoffai 88% o ymatebwyr weld hamdden awyr agored arall yn cael ei gyflwyno / ei uwchraddio ac mae 80% yn ystyried yr angen i wella cysylltiadau rhwng mannau awyr agored yn hanfodol neu'n ddymunol.

Mae sylwadau'n cynnwys:

"Mae angen ehangu pob ardal er mwyn iddyn nhw ymwreiddio yn y gymuned, fydd yn gwella lles y trigolion."

"Mwy o le i fwy o brosiectau cymunedol a gweithgareddau cymdeithasol."

"Mae'r parciau'n ased i'r gymuned."

"Mwy o gyhoeddusrwydd i'r goedwig."

"Gwell cyfleusterau ar gyfer gwerthfawrogi bywyd gwyllt, mannau glas cymunedol a phlannu i'w rhannu."

"Dim defnydd o fannau glas lleol ar gyfer chwaraeon egnïol fel pêl-droed, criced, pêl-rwyd. Mae gan Felindre lawer o gyfleusterau nad ydym ni fel pentrefwyr lleol Llangyfealch yn cael eu defnyddio. Trueni mawr."

"Mannau chwarae i blant / pobl ifanc neu oedolion i chwarae chwaraeon e.e. cae pêl-droed / cwrt pêl-fasged neu ardal ar gyfer ymarfer cŵn, o ystyried cymaint o gŵn sydd yn Llangyfelach."

"Byddai cae pêl-droed a chwrt pêl-fasged yn dod â chymaint i'n cymuned."

"Mae angen cae pêl-droed ac mae llawer o dimau'n chwarae o Langyfelach a fyddai'n wych... hefyd unrhyw fath o faes chwaraeon a fyddai'n cadw'r plant yn actif."

"Mae'r ardaloedd chwarae'n cael eu defnyddio'n dda gan y plant ac mae angen eu datblygu a'u cynnal i annog y plant i chwarae a chymdeithasu mewn amgylchedd diogel."

"Lle cadw beics ar lawnt Y Llwyni."

"Croesfan ffordd."

4.2 Arolwg cymunedol a thrafodaethau grŵp

Ymatebwyr i'r arolwg

Cwblhawyd 88 arolwg. O blith y rhain mae 81% yn byw o fewn 10 munud o gyffyrdd Heol-y-Geifr / Heol Abertawe / cyffyrdd A48, Llangyfelach.



Ffigwr 15: Agosrwydd at yr ardal astudio

Roedd ymatebwyr i'r arolwg yn cynrychioli ystod rhesymol o oedrannau, heblaw am bobl 0-16 oed a 16-24 oed. Roedd 77% o'r ymatebwyr yn fenywaidd.



Ffigwr 16: Ystod oedran ymatebwyr

Defnydd presennol – amlder a hyd

Neuadd Eglwys / Gymunedol Llangyfelach sydd â'r nifer fwyaf o ymweliadau. Mae 36% yn defnyddio'r cyfleuster o leiaf unwaith yr wythnos a 15% arall ddwywaith y mis.

Er bod y rhai sy'n defnyddio tiroedd yr Eglwys / gerddi cymunedol sawl gwaith yr wythnos yn cyfrif am y gyfran uchaf (sef 21%), roedd ganddi hefyd un o'r amlderau mwyaf cyffredin.

'Cyfleusterau eraill' ar 38% a 'Adloniant awyr agored arall' ar 27% oedd â'r gyfran uchaf nad oeddent yn defnyddio cyfleusterau.

Mae cyfleusterau hamdden awyr agored eraill / cyfleusterau eraill yn cynnwys:

- Meysydd chwarae plant / mannau chwarae
- Lawnt y pentref a mannau awyr agored
- Y cae a'r parciau
- Coed Penllergaer
- Coedwigoedd
- Cerdded o gwmpas y pentref
- Siop / Swyddfa Bost
- Tafarn / gardd gwrw
- Ysgol / parc Llangyfelach
- Lawnt ar ddiwedd Heol Bryn y Gors

- Cae chwarae ar Fairview
- Amlosgfa Abertawe / Treforys



Ffigwr 17: Presenoldeb rheolaidd

Ni fydd ymweliadau'n para'n fwy na 2 awr fel arfer. Mae'r hyd uchaf yn amrywio ar draws y cyfleusterau.



Ffigwr 18: Hyd ymweliadau

O dynnu'r ymateb 'amherthnasol' er mwyn canolbwyntio ar y bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau, awgrymir:

- Bod amrywiaeth o hyd ar gyfer Neuadd y Sgowtiaid (41% ar ei uchaf am 1-2 awr)
- Yr amseroedd brig ar gyfer Eglwys Dewi Sant a Chyfelach a'r Neuadd Eglwys / Gymunedol yw 1-2 awr (44-45%). Yr eglwys sydd â'r gyfran uchaf o'r rhai sy'n treulio mwy na 2 awr, ar 15%
- Tir yr Eglwys / gerddi cymunedol yn cyrraedd uchafbwynt o 30 munud (50%)
- Mae cyfleusterau hamdden awyr agored a chyfleusterau eraill yn cyrraedd uchafbwynt o 0.5-1 awr ond yn ymestyn ar draws cyfnodau



Ffigwr 19: Hyd ymweliadau ac eithrio ymatebion n/a

Gofynnwyd i gyfranogwyr roi eu cymhelliad tebygol ar gyfer ymweld yn y dyfodol a gofynnwyd iddynt gadw hwn i un ateb yn unig h.y. cadarnhau eu prif reswm.

Dywedodd 37% eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi'i arwain gan grŵp. 24% i gymdeithasu gyda ffrindiau neu deulu. 19% i ddefnyddio cyfleusterau mewn amgylchedd diogel. 11% i fynd am dro. 9% i dreulio amser yn yr awyr agored ac ymlacio.



Ffigwr 20: Ysgogiad tebygol dros ymweld yn y dyfodol

Addysgu cynigion – ymyriadau allweddol a galw yn y dyfodol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth yr hoffent ei weld yn cael ei gyflwyno / uwchraddio a threfnu'r cynigion yn ôl rhai hanfodol, dymunol neu ddim yn angenrheidiol. Roedd cefnogaeth gref i'r holl gynigion.



Ffigwr 21: Beth hoffai ymatebwyr ei weld yn cael ei gyflwyno / uwchraddio

Rhannwyd cefnogaeth gyffredinol yn y tabl isod i ddangos canrannau cyfun hanfodol a dymunol. Rhestrwyd y cynigion yn ôl y gefnogaeth gyffredinol uchaf.

- 'Cyfleusterau a gwasanaethau ychwanegol y Neuadd Eglwys / Gymunedol' a 'datblygu'r gerddi cymunedol ymhellach' gafodd y lefel uchaf ar y cyd o gefnogaeth ar 91%. Dosbarthwyd y rhain bron yn gyfartal ar draws hanfodol a dymunol;
- Aeth y lefel trydydd uchaf o gefnogaeth i hamdden awyr agored arall, ar 88%;
- Aeth y pedwerydd lefel uchaf o gefnogaeth i gyfleusterau ychwanegol Neuadd y Sgowtiaid a gofod allanol ar 85%. Mae hanner y gefnogaeth yn ystyried hyn yn hanfodol;
- Roedd gan gyfleusterau eraill gefnogaeth o 83%. Mae dwy ran o dair o'r cymorth hwn yn ei ystyried yn ddymunol;
- Rhoddwyd 80% i'r cysylltiadau rhwng mannau allanol. Mae bron i ddwy ran o dair o'r cymorth hwn yn ei ystyried yn ddymunol;

Cynigion	**Cefnogaeth gyffredinol**	**Hanfodol**	**Dymunol**	**Diangen**
Cyfleusterau a gwasanaethau ychwanegol y Neuadd Eglwys / Gymunedol	91.46%	42.68%	48.78%	8.54%
Datblygu'r gerddi cymunedol tir yr eglwys ymhellach	91.46%	43.90%	47.56%	8.54%
Hamdden awyr agored arall	88.61%	39.24%	49.37%	11.39%
Cyfleusterau ychwanegol Neuadd y Sgowtiaid a gofod allanol	85.19%	43.21%	41.98%	14.81%
Cyfleusterau eraill	83.54%	29.11%	54.43%	16.46%
Cysylltiadau rhwng mannau allanol	80.49%	34.15%	46.34%	19.51%

Ffigwr 22: Cefnogaeth i gynigion

Bu'r cyfranogwyr yn ystyried a fyddai buddsoddi yn y cyfleusterau a'r gwasanaethau yn eu hannog i ymweld yn amlach. Mae canran y rhai a ddywedodd 'ydw' wedi'i graddio yn ôl y tebygolrwydd uchaf:

- Datblygu'r gerddi cymunedol tir yr eglwys ymhellach 79%
- Cyfleusterau a gwasanaethau ychwanegol y Neuadd Eglwys / Gymunedol 76%
- Hamdden awyr agored arall 68%
- Cysylltiadau rhwng mannau allanol 65%
- Cyfleusterau eraill 63%
- Cyfleusterau ychwanegol Neuadd y Sgowtiaid a gofod allanol 56%

Mae trafodaethau a sylwadau pellach ynghylch Neuadd y Sgowtiaid a'i thiroedd yn awgrymu y byddai'r ganran yn uwch pan fyddai'r gymuned yn deall yn well y math o fuddsoddiad, ynghyd â chael ymwybyddiaeth y byddai cyfleusterau ar gael yn ehangach / yn fwy hygyrch.



Ffigwr 23: Annog mwy o ymweliadau

5. Cyfleoedd, egwyddorion datblygu ac opsiynau

5.1. Cyfleoedd a heriau'r safle – dadansoddiad SWOT

Dehonglwyd problemau, heriau a chyfleoedd meintiol ac ansoddol allweddol sy'n codi o'r proffil economaidd-gymdeithasol, ymchwil llenyddiaeth a thrafodaethau gyda phartneriaid prosiect a phobl leol. Mae hyn wedi llywio dadansoddiad SWOT – techneg gynllunio strategol i helpu i nodi'r Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau sy'n gysylltiedig â chynllunio prosiect ar gyfer ardal astudiaeth Llangyfelach. Drwy gyfrwng y gwaith meintiol ac ansoddol manylwyd ar amcanion yr astudiaeth ac amlygwyd y ffactorau mewnol ac allanol sy'n ffafriol ac anffafriol i'w cyflawni. Mae'r dadansoddiad SWOT yn grwpio darnau allweddol o wybodaeth yn ddau brif gategori: Ffactorau mewnol – cryfderau a gwendidau mewnol yr ardal; a ffactorau allanol – y cyfleoedd a'r bygythiadau a gyflwynir gan yr amgylchedd y tu allan i'r ardal.

Mae'r dadansoddiad SWOT hwn wedi llywio cyfle'r 'Farchnad', egwyddorion datblygu a chymhariaeth o opsiynau datblygu – gan alluogi cymharu rhesymeg, nodau gweithredol / cyflawni a chanlyniadau er mwyn cynyddu cryfderau a chyfleoedd, mynd i'r afael â gwendidau a lliniaru effaith bygythiadau.

	O Gymorth	**Niweidiol**
Ffactorau mewnol	**Cryfderau** • Ymrwymiad Cyngor Cymuned Llangyfelach, Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach ac Eglwys Dewi Sant a Chyfelach i amlygu bylchau a mynd i'r afael â nhw wrth ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau lleol • Cyfleusterau craidd eisoes o fewn ardal yr astudiaeth • Lleolir cynigion ar dir / mewn cyfleusterau sydd ym mherchnogaeth y partneriaid • Agosrwydd cyfleusterau / cynigion at ei gilydd a rhwyddineb mynediad rhyngddynt • Mae cyfleusterau a gwasanaethau cyflenwol eisoes yn denu'r gymuned • Lleoliad hygyrch, yng nghanol y gymuned leol	**Gwendidau** • Adnoddau ariannol sydd ar gael • Topograffeg tir Neuadd y Sgowtiaid • Hygyrchedd presennol o fewn y safleoedd – tir Neuadd y Sgowtiaid a thir yr Eglwys • Cynnal a chadw tir Neuadd y Sgowtiaid a thir yr Eglwys • Digwyddiadau unigol o ymddygiad gwrthgymdeithasol • Mynediad i wasanaethau mewn rhannau o'r ward

	Cyfleoedd	Bygythiadau
Ffactorau allanol	• Twf poblogaeth a brofir o ganlyniad i dair Ardal Ddatblygu Strategol o fewn y ward, un ohonynt yn ffinio â'r pentref. • Mannau hamdden a chyfleusterau cymunedol cyfyngedig y tu allan i ardal yr astudiaeth. Cyfle i ddatblygu ymhellach leoliadau allanol a chyfleusterau cyflenwol fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig • Cyfle i wella bioamrywiaeth – gwell cynefinoedd i greu mannau o ddiddordeb a denu mwy o fywyd gwyllt • Gall cynigion wella safle is 'Mynediad at wasanaethau' yr ardal (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) • Cysylltu cynigion â llwybrau sy'n arwain at atyniadau fel Coed Dyffryn Penllergaer • Blwyddyn y Llwybr Croeso Cymru a dyhead Cyngor Abertawe i ddarparu cymorth pellach i wardiau gogleddol i ledaenu buddion twristiaeth • Cronfa Ffyniant Gyffredin – gan gynnwys Arloesedd Gwledig, Cymunedau Cynaliadwy, Datblygu Lle, Cefnogi Busnes Lleol	• Mwy o gystadleuaeth am gyllid sector gwirfoddol a chyhoeddus

Ffigwr 24: Cyfleoedd a heriau'r safle – dadansoddiad SWOT

5.2. Cyfle'r 'Farchnad'

Mae'r ymchwil, yr ymgynghoriad a'r asesiad safle yn dangos cefnogaeth gref ar gyfer gweld mwy o ddatblygu ar fannau awyr agored a chyfleusterau cyflenwol fel adnoddau cymdeithasol ac adloniadol pwysig i gwrdd yn llawnach ag angen 'cymunedol', anghenion aelodau sefydliadau partner, taclo bylchau yn y ddarpariaeth a gwella'r gwaith o gynnal a chadw tir Neuadd y Sgowtiaid a thir yr Eglwys, gan ddod â nhw'n ôl i ddefnydd cynaliadwy, creu mannau o ddiddordeb a denu mwy o fywyd gwyllt / bioamrywiaeth.

O ran dadansoddi'r farchnad, mae'n debygol mai grwpiau defnyddwyr allweddol y datblygiadau newydd fydd:

Cynradd

Marchnad breswyl leol

- Yn bennaf o fewn amser gyrru o 10 munud. Mae'n debygol mai'r farchnad / gynulleidfa allweddol fydd trawstoriad o'r gymuned leol; teuluoedd, plant ifanc, arddegwyr, pobl wedi ymddeol, ungiolion ynysig a cherddwyr hamdden.

Aelodau sefydliadau partner

- Diddordebau penodol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â sefydliadau partner gan gynnwys Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach, Eglwys Dewi Sant a Chyfelach a gwasanaethau Cyngor Cymuned Llangyfelach. Er bod y rhain yn debygol o fod o fewn 10 munud yn bennaf, mae natur eu harbenigedd / diddordebau a chyfyngiadau ar argaeledd gwasanaethau / cyfleusterau tebyg mewn ardaloedd cyfagos yn golygu bod eu hapêl yn ymestyn ymhellach.

Ymweliadau dysgu / addysgol lleol

- Ystod o gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol ynghylch bioamrywiaeth, gweithgareddau amgylcheddol a choed
- Ymweliadau ysgol a grwpiau diddordeb arbenigol.

Cynulleidfaoedd eilaidd

Y farchnad ymwelwyr

- Gall y farchnad cyfeillion a pherthnasau sy'n ymweld (VFR) fod yn rhan gymedrol o'r cymysgedd ymwelwyr.
- Cyfleoedd i gysylltu ag atyniadau cyfagos megis Coed Dyffryn Penllergaer. Byddai hyn yn debygol o fod yn fwy cyfyngedig o ran maint ac yn dibynnu ar boblogrwydd y goedwig a diddordeb mewn archwilio ardaloedd cyfagos ar hyd llwybrau a lonydd (fel y rhai sy'n cysylltu pentref Llangyfelach trwy Ffordd Penplas) e.e. apelio at ddiddordebau / demograffeg 'niche' a'r rhai sy'n lleol i Abertawe neu'r cyffiniau cyfagos.

Ffigwr 25: Dadansoddi'r farchnad – grwpiau defnyddwyr allweddol

5.3. Egwyddorion datblygu

Bu sawl egwyddor datblygu'n sail i'r broses o gynhyrchu ac arfarnu opsiynau.

Byddai adnoddau cymunedol cyflenwol sy'n darparu cyfleoedd cymdeithasol a hamdden i'r gymuned leol ac aelodau sefydliadau partner yn bennaf, gyda rhywfaint o apêl i'r farchnad ymwelwyr yn:

- **Ehangu ar gyfleusterau a gwasanaethau a defnyddio lle allanol o amgylch lawnt y pentref fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig i gymunedau lleol.**
- **Diwallu angen 'cymunedol' yn llawnach a bod yn hygyrch i ystod eang o ddefnyddwyr**
- **Mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth yn enwedig o ran mynediad i fannau allanol**
- **Darparu ar gyfer twf poblogaeth arfaethedig yn yr ardal**
- **Gwella'r gwaith o gynnal a chadw tir Neuadd y Sgowtiaid a thir yr Eglwys, gan ddod â nhw'n ôl i ddefnydd cynaliadwy**

Ffigwr 26: Egwyddorion datblygu

5.4. Opsiynau datblygu

Amlinellir tair lefel ymyrraeth isod fel cymhariaeth o ran gaddfa a ffurf. Po fwyaf yw'r raddfa, mwyaf fydd effaith y prosiect o ran buddion, cost cyfalaf, risg a rhaglenni cyflawni. Mae'r opsiynau'n cymharu ac yn cyferbynnu'r hyn sy'n briodol, a'r hyn a fyddai'n cyd-fynd agosaf â dyheadau, cyfleoedd marchnad ac egwyddorion datblygu'r partneriaid a'r gymuned. Y tri opsiwn yw:

- Opsiwn un: Sylfaenol – parhau fel y mae
- Opsiwn dau: Datblygu lleoedd awyr agored a chyfleusterau cydweddol ymhellach fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig
- Opsiwn tri: Adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysiggyda mwy o apêl ehangach i'r farchnad ymwelwyr

Opsiwn un: Sylfaenol – parhau fel y mae

Disgrifiad cryno	Parhau fel ymae gydag ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau presennol yn barhaus o fewn y cyfleusterau, ond â gwaith cynnal a chadw cyfyng ac ychydig iawn neu ddim buddsoddiad cyfalaf pellach.
Rhesymwaith	• Defnyddio'r cyfleusterau presennol a darparu gwasanaethau cyfredol o fewn cyfyngiadau'r lle y gellir ei ddefnyddio • Cyfyngu ar gostau cyfalaf a pheryglon i Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach ac Eglwys Dewi Sant a Chyfelach
Cynulleidfaoedd / marchnadoedd allweddol	• Cymuned leol uniongyrchol (yn bennaf o fewn 10 munud o amser gyrru)

	• Aelodau sefydliadau partner
Cryfderau / manteision/ buddion	**Gwendidau / anfanteision / cyfyngiadau**
• Cyfleusterau craidd eisoes ar y safle • Cyfleusterau a gwasanaethau cyflenwol eisoes yn dynfa i'r gymuned • Dim mwy o ymrwymiadau cyfalaf, gofynion / ymrwymiadau ariannu • Dim adnodd ychwanegol ei angen heblaw'r hyn yr ymrwymwyd iddo eiseos • Deellir rhaglenni / gwasanaethau cyflenwi i bob pwrpas, a chyllidebwyd ar eu cyfer • Dull risg (ariannol) is ar gyfer Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach ac Eglwys Dewi Sant a Chyfelach	• Mae'n ateb yn rhannol yr angen 'cymunedol' fel y nodwyd gan bartneriaid, ymgynghoriad ac ymchwil sylfaenol yn yr astudiaeth hon • Nid yw'n cyflawni dyheadau partneriaid a lefelau gwasanaethau / cyfleusterau ar gyfer eu haelodau • Cyfyngiad ar y buddion iechyd, lles ac amgylcheddol a gyflawnwyd • Byddant yn safleoedd a danddefnyddir • Bydd effaith gyfunol cyfleusterau a gwasanaethau'n gyfyngedig o'i gymharu ag opsiynau eraill • Bydd gwella bioamrywiaeth a gwelliannau amgylcheddol yn gyfyngedig • Bydd cynnal a chadw tir Neuadd y Sgowtiaid a thir yr Eglwys yn parhau i fod yn broblem

Ffigwr 27: Opsiwn un: Sylfaenol – parhau fel y mae

Opsiwn Dau: Datblygu lleoedd awyr agored a chyfleusterau cydweddol ymhellach fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig

Disgrifiad cryno	Datblygu ymhellach fannau allanol a chyfleusterau cyflenwol fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig. Gwella'r cyfleusterau presennol, mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth, dod â thir Neuadd y Sgowtiaid a thir yr Eglwys i ddefnydd cynaliadwy a gwella mynediad i leoedd ac o'u mewn.
Rhesymwaith	• Datblygu ymhellach a gwireddu manteision cyfleusterau ac adnoddau cyflenwol ar gyfer ystod eang o ddefnyddwyr • Diwallu anghenion 'cymuned' a phartneriaid • Mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth o gyfleusterau a gwasanaethau yn yr ardal • Gwireddu'r cyfleoedd y gall y safleoedd eu cynnig
Cynulleidfaoedd / marchnadoedd allweddol	• Y gymuned leol (amserau gyrru 10 munud ac 20 munud) • Aelodau sefydliadau partner • Ymweliadau dysgu / addysg lleol

	• Marchnad ymwelwyr – ymweld â ffrindiau a pherthnasau (VFR), diddordebau / demograffeg 'niche' a'r rhai sy'n lleol i Abertawe neu'r cyffiniau agos i ardaloedd cyfagos.
Cryfderau / manteision/ buddion	**Gwendidau / anfanteision / cyfyngiadau**
• Cyfle i ddatblygu ymhellach adnoddau cymdeithasol a hamdden sy'n hygyrch i ystod eang o ddefnyddwyr • Diwallu angen 'cymunedol' fel y nodwyd gan bartneriaid, ymgynghoriad ac ymchwil sylfaenol yn yr astudiaeth hon • Bodloni dyheadau partneriaid • Darparu ar gyfer anghenion y gymuned a demograffeg newidiol • Gwella'r gwaith o gynnal a chadw tir Neuadd y Sgowtiaid a thir yr Eglwys, gan ddod â nhw'n ôl i ddefnydd cynaliadwy, creu mannau o ddiddordeb a denu mwy o fywyd gwyllt / bioamrywiaeth. • Cyfleoedd i gynhyrchu refeniw ychwanegol. Mae'r rhain yn debygol o fod drwy ddefnydd cynyddol o gyfleusterau Neuadd y Sgowtiaid a'r tir ar gyfer digwyddiadau / grwpiau a drefnwyd, a llogi lleoedd ychwanegol a mynychu digwyddiadau / dosbarthiadau pwrpasol yn y Neuadd Eglwys / Gymunedol. • Gall gyd-fynd â Blwyddyn y Llwybr Croeso Cymru a dyhead Cyngor Abertawe i ledaenu buddion twristiaeth i wardiau gogleddol	• Ymagwedd risg (ariannol) uwch ar gyfer Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach, Eglwys Dewi Sant a Chyfelach ac o bosibl Cyngor Cymuned Llangyfelach fydd yn galw am gyllid cyfalaf • Costau cynnal a chadw a gofynion adnoddau uwch

Ffigwr 28: Opsiwn dau: Datblygu lleoedd awyr agored a chyfleusterau cydweddol ymhellach fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig

Opsiwn tri: Adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig gyda mwy o apêl ehangach i'r farchnad ymwelwyr

Disgrifiad cryno	Ymestyn gwella'r cyfleusterau i apelio'n fwy at y farchnad ymwelwyr, gan roi ffocws pellach a mwy amlwg ar y rôl y gall mannau awyr agored – tir Neuadd y Sgowtiaid a thir yr Eglwys – eu chwarae law yn llaw ag atyniadau cyfagos i ymwelwyr fel Coed Dyffryn Penllergaer.
Rhesymwaith	• Mwy o apêl at y farchnad ymwelwyr
Cynulleidfaoedd / marchnadoedd allweddol	• Y gymuned leol (amserau gyrru 10 munud ac 20 munud) • Aelodau sefydliadau partner • Ymweliadau dysgu / addysg lleol • Marchnad ymwelwyr – ymweld â ffrindiau a pherthnasau (VFR), diddordebau / demograffeg 'niche' a'r rhai sy'n lleol i Abertawe neu'r cyffiniau agos i ardaloedd cyfagos.

Cryfderau / manteision/ buddion	**Gwendidau / anfanteision / cyfyngiadau**
• Cysylltu cynigion yn fwy penodol ag atyniadau fel Coed Dyffryn Penllergaer ar gyfer apêl ehangach • Yn gallu cyd-fynd â Blwyddyn y Llwybr Croeso Cymru a dyhead Cyngor Abertawe i ledaenu buddion twristiaeth i wardiau gogleddol • Potensial i gael apêl ehangach a denu mwy o ymwelwyr	• Ymagwedd risg uwch (ariannol) ar gyfer Cyngor Cymuned Llangyfelach, Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach ac Eglwys Dewi Sant a Chyfelach sydd angen cyllid cyfalaf • Costau cynnal a chadw uwch a gofynion adnoddau • Cymhlethdod ychwanegol gyda thirfeddianwyr ychwanegol angen eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau • Cyfyng yw'r cyfle i gynhyrchu refeniw ychwanegol y tu hwnt i opsiwn 2 • Mae lefel yr apêl a'r tebygolrwydd o ddenu ymwelwyr ychwanegol i'r rhai a nodir yn opsiwn 2 yn amheus

Ffigwr 29: Opsiwn tri: Adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysiggyda mwy o apêl ehangach i'r farchnad ymwelwyr

5.5. Gwerthuso'r opsiynau

Cymhwyswyd matrics ar gyfer pob opsiwn i alluogi asesiad gwrthrychol a chymaradwy. Roedd hyn yn cynnwys un ar ddeg o feini prawf yn seiliedig ar ddyheadau, anghenion cymunedol ac egwyddorion datblygu Cyngor Cymuned Llangyfelach, Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach ac Eglwys Dewi Sant a Chyfelach:

Ystyriaethau'r safle ac amgylcheddol	
Cymhwysiad / integreiddio'r safle ffisegol (o fewn daliad tir presennol)	• Pa mor dda mae'r opsiwn yn cymhwyso o ran gofynion lleoliad / defnydd ehangach o'r lle?
Effaith amgylcheddol	• Effaith amgylcheddol bosibl o ran cynaliadwyedd, gwastraff, llygredd ac addasrwydd y defnydd arfaethedig ar gyfer y dirwedd a'r lleoliad • Budd ychwanegol / gwelliannau amgylcheddol
Ystyriaethau'r farchnad	
Apêl / cymhwysiad y farchnad	• Potensial y ymgysylltu â'r farchnad leol (gan gynnwys defnydd gan grwpiau)
Cynhyrchu ymweliadau o blith marchnad ehangach	• Cynhyrchu ymweliadau o blith marchnad dwristiaeth ehangach
Angen cyfalaf a chyflenwi'r prosiect	
Costau cyfalaf arfaethedig	• Tybiaethau costau arfaethedig uchel
Cyflawniad ymarferol prosiect	• Pa mor hawdd yw cyflawni'r prosiect, gan gynnwys proses ddatblygu
Risg datblygu	• Lefel y risg sy'n gysylltiedig â chyflawni'r opsiwn - risgiau cyffredinol sy'n gysylltiedig â bwrw ymlaen â'r opsiwn arfaethedig gan gynnwys sicrhau cyllid a marchnata'r cynnig (Uchel, Canolig, Isel, Dim risg)
Gweithredol ac ariannol	

Cymhlethdod gweithredu	• Cymhlethdod i'w reoli yn ystod y cyfnod gweithredu
Cynhyrchu refeniw	• A oes gan yr opsiwn y gallu i gynhyrchu refeniw?
Costau gweithredu	• Lefel y costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn o ran rheoli cyfleusterau a gwasanaethau
Effeithiau	
Manteision cymdeithasol a llesiant	• Gallu cynhyrchu cyfleoedd cymdeithasol a llesiant ar gyfer y gymuned leol ac aeloddau sefydliadau partner

Ffigwr 30: Meini prawf gwerthuso opsiynau

Sgoriwyd y meini prawf ar gyfer pob opsiwn – yn amrywio o 1 (isaf) i 5 (uchaf) yn dibynnu i ba raddau roedd pob un yn cael ei fodloni. Roedd gan bob maen prawf bwysoliad sy'n cynrychioli lefel pwysigrwydd o gymharu â'i gilydd. Amrywiai hyn o 1.0 i 2.75. Lluoswyd sgôr pob maen prawf â'r pwysoliad i roi sgôr wedi'i bwysoli. Cyfrifwyd sgoriau a sgoriau pwysol ar gyfer pob opsiwn. Ceir cyfanswm sgôr uchaf o 55 a chyfanswm sgôr pwysol o 100.

Meini Prawf		**Opsiynau**					
	Pwysoli	**Opsiwn Un: parhau fel y mae**		**Opsiwn Dau: Datblygu lleoedd awyr agored a chyfleusterau cydweddol ymhellach fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig**		**Opsiwn Tri: Adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig gyda mwy o apêl ehangach i'r farchnad ymwelwyr**	
		Sgôr	Sgôr wedi'i bwysoli	Sgôr	Sgôr wedi'i bwysoli	Sgôr	Sgôr wedi'i bwysoli
Ystyriaethau'r safle ac amgylcheddol							

Addasrwydd ffisegol y safle / integreiddiad (o fewn daliad tir presennol)	1.5x	2	3	5	7.5	4	6
Effaith amgylcheddol	2.0x	2	4	4	8	4	8
Ystyriaethau'r farchnad							
Apêl / addasrwydd y farchnad	2.75x	2	5.5	5	13.75	4	11
Cynhyrchu ymweliadau o'r farchnad ehangach	1.0x	1	1	4	4	4	4
Gofynion cyfalaf a chflawni'r prosiect							
Costau cyfalaf a awgrymir	2.0x	4	8	3	6	2	4
Cyflawniad ymarferol prosiect	1.5x	4	6	3	4.5	2	3
Risg datblygu	2.0x	5	10	3	6	2	4
Gweithredol ac ariannol							
Cymhlethdod gweithredu	1.5x	5	7.5	3	4.5	2	3
Cynhyrchu refeniw	1.0x	2	2	4	4	4	4

Costau gweithredu	2.0x	4	8	3	6	2	4
Effeithiau							
Manteision cymdeithassol a llesiant	2.75x	2	5.5	5	13.75	5	13.75
Sgôr	**55**	**33**		**42**		**35**	
Cyfanswm Sgôr wedi'i bwysoli	**100**		**60.50**		**78.00**		**64.75**

Ffigwr 31: Sgorio a chymharu gwerthuso opsiynau

Yr opsiwn a sgoriodd uchaf, o beth wmbredd yw **Opsiwn Dau: Datblygu lleoedd awyr agored a chyfleusterau cydweddol ymhellach fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig,** gyda sgôr a bwysolwyd o 78.00. Mae'r opsiwn hwn yn diwallu angen 'cymunedol' yn llawnach fel y'i nodwyd gan bartneriaid, ymgynghoriad ac ymchwil sylfaenol yn yr astudiaeth hon, mae'n gwireddu dyheadau partneriaid, yn darparu ar gyfer anghenion y gymuned a demograffeg newidiol, mae'n mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ac yn gwella'r gwaith o gynnal a chadw tir Neuadd y Sgowtiaid a thir yr Eglwys, gan ddod â nhw'n ôl i ddefnydd cynaliadwy, creu mannau o ddiddordeb a denu mwy o fywyd gwyllt / bioamrywiaeth. Y ffactor risg fwyaf yw'r angen i Gyngor Cymuned Llangyfelach, Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach ac Eglwys Dewi Sant a Chyfelach sicrhau cyllid cyfalaf i weithredu cynigion.

Er bod pob cynnig yn gallu sefyll ar ei ben ei hun a bod iddo fuddion i ddemograffeg benodol y gymuned, gwelir yr effaith fwyaf trwy wireddu pecyn cyflenwol o gynigion sy'n diwallu anghenion aelodau 'cymunedol' a sefydliadau partner yn llawnach, sy'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'r effaith orau, sy'n mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ac sy'n apelio at ystod eang o ddefnyddwyr.

Opsiwn tri: Adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig gyda mwy o apêl ehangach i'r farchnad ymwelwyr, yw'r ail uchaf o ran sgôr a bwysolwyd ar 64.75. Mae'r opsiwn hwn yn ehangu gwelliannau a marchnata i fod yn fwy deniadol i ymwelwyr; gyda mwy o ffocws mwy penodol ar ba rôl y gall y mannau awyr agored – tir Neuadd y Sgowtiaid a thir yr Eglwys – ei chwarae ochr yn ochr ag atyniadau ymwelwyr cyfagos fel Coed Dyffryn Penllergaer. Mae lefel o ansicrwydd ynghylch cymhwysedd / integreiddio, cyflawni / datblygu, costau cyfalaf uwch a chydbwyso gofynion cymunedau lleol yn erbyn apêl ehangach y farchnad ymwelwyr, a arweiniodd at gymhwyso sgorau is i'r meini prawf hyn.

Gellid ystyried yr opsiwn hwn fel parhad o opsiwn 2 yn y dyfodol ar ôl i'r cynigion a ffefrir gael eu cyflawni, ar ôl i'r buddsoddiad cyfalaf ychwanegol gael ei ddeall yn well ac y gellir deall yn well a meithrin yr apêl i fuddiannau 'niche' / demograffeg yn well.

Yr opsiwn a sgoriodd isaf ar 60.50 yw **Opsiwn un: Sylfaenol – parhau fel y mae**. Dyma'r opsiwn sy'n peri'r risg leiaf o ran costau cyfalaf a gweithredol ond mae'n sgorio'n isel o ran cymhwysedd / integreiddiad safle ffisegol, effaith amgylcheddol, apêl / cymhwysedd y farchnad, cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu refeniw a buddion cymdeithasol a llesiant. Ni fyddai'n diwallu angen 'cymunedol' fel y'i nodwyd gan bartneriaid, ymgynghoriad ac ymchwil sylfaenol yn yr astudiaeth hon, ni fyddai'n mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth nac yn gwella'r gwaith o gynnal a chadw tir Neuadd y Sgowtiaid a thir yr Eglwys.

6. Cyflenwi, cyllid ac ariannu

6.1. Dull a llywodraethiant cyflenwi

Mae'r rhan fwyaf o ardal yr astudiaeth yn eiddo i'r Eglwys yng Nghymru a'r Grŵp Sgowtiaid (6ed Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach). Byddai angen i'r ddau sefydliad arwain y cyfnodau datblygu gan dynnu ar gefnogaeth ac arbenigedd Cyngor Cymuned Llangyfelach a phartneriaid eraill yn ôl yr angen.

Mae gan y cyngor a'r Grŵp Sgowtiaid hanes llwyddiannus o sicrhau cyllid, ac mae gan yr holl bartneriaid brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau a gwasanaethau.

Mae'r bartneriaeth wedi cydnabod y bydd cyfyngiadau ar gyllid o bryd i'w gilydd yn ymwneud â thir yr Eglwys a'r Neuadd Eglwys / Gymunedol. Mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â'r potensial i ffurfio Grŵp Cyfeillion asy'n ymwneud â thir yr Eglwys ac i weld un o'r partneriaid yn prydlesu / rheoli'r Neuadd Eglwys / Gymunedol a fyddai'n helpu gyda buddsoddi yn y dyfodol, a'r gallu i gael mynediad at ffynonellau cyllid sydd ar gael.

6.2. Pennu gofynion ariannol

Mae'r cyngor, y Grŵp Sgowtiaid a'r Eglwys yn elwa o fewnbwn sylweddol o ran amser ac adnoddau ar sail wirfoddol gan y gymuned leol, ar ffurf cynghorwyr lleol, aelodau grwpiau a phwyllgorau. Bydd costau refeniw gan gynnwys capasiti oddi wrth y grwpiau hyn yn parhau i gael eu darparu ac, yn achos rhai cyllidwyr, fe'u hystyrir fel arian cyfatebol tuag at gyflawni'r cynigion / rhaglen fwy.

Y ffactor risg unigol fwyaf wrth gyflawni'r cynigion yw sicrhau'r adnoddau cyfalaf angenrheidiol. Amlygwyd sawl eitem graidd sy'n hanfodol i gyflawni dyheadau'r partneriaid a'r gymuned. Ar hyn o bryd amcanion yw'r costau a bydd angen eu datblygu ymhellach wrth greu'r cynigion. Mae cwrdd â'r costau cyfalaf llawn sy'n gysylltiedig â'r cynigion y tu hwnt i adnoddau'r partneriaid.

Tir y Sgowtiaid

Gwneud y safle'n ddiogel drwy godi ffensys, galluogi mynediad i beiriannau a chyfleustodau drwy osod clwyd sy'n agor ar Heol y geifr: £15-20,000

Tirlunio parthau gwahanol ar gyfer gweithgareddau a amlygwyd ledled y tiroedd tu cefn: £15,000

Neuadd Eglwys / Gymunedol

Costiwyd ystod o offer a chyfleusterau diwygiedig a fydd yn galluogi'r lle i ateb anghenion lleol a gofynion grwpiau / defnyddwyr. Bydd hyn yn ehangu apêl y neuadd, yn cynyddu niferoedd defnyddwyr ac amlder y defnydd ohono.

Mae amcan-gostau oddeutu £18,000 gan gynnwys cadeiriau arbenigol, system wresogi newydd a lloriau ar hyd y brif neuadd a'r fynedfa.

Tiroedd Eglwys Dewi Sant a Chyfelach

Ailosod a gosod llwybrau newydd sy'n cysylltu pwyntiau mynediad allweddol ar draws y safle: £27,000-33,000 (£27,000 heb ymyon a £33,000 gydag ymylon carreg)

6.3. Datblygu strategaeth ariannol

Bydd angen i **Gyngor Cymuned Llangyfelach, Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach ac Eglwys Dewi Sant a Chyfelach** roi Strategaeth Gyllido amlinellol ar waith i roi trosolwg o gamau gweithredu, amserlenni a ffynonellau / dulliau ariannu posibl er mwyn cyflawni'r opsiwn a ffefrir: 'Datblygu rhagor o fannau allanol a chyfleusterau ategol fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig'.

Ceir sawl cyfle ariannu y dylid ymchwilio ymhellach iddynt fel rhan o'r Strategaeth Ariannu, gan gynnwys:

Mae rhaglen Leader wedi buddsoddi i dyfu a datblygu'r cynnyrch twristiaeth, gan gynnwys Cynllun Twf Llety Gwledig y Cynllun Datblygu Gwledig, a sicrhaodd fuddsoddiad i wella'r ddarpariaeth llety yn Abertawe wledig. Wrth i raglen Leader ddod i ben, bydd **Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) a** gyhoeddwyd yn ddiweddar, a fydd yn gyllidwr sylweddol ar draws y rhanbarth, ac sy'n gosod Cyngor Abertawe fel awdurdod arweiniol rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru, yn sicrhau bod nifer o gronfeydd ar gael gan gynnwys y Gronfa Cymunedau Cynaliadwy a'r Gronfa Arloesi Gwledig.

Mae'r UKSPF yn rhan o ymrwymiad llywodraeth y DU i lefelu pob rhan o'r DU drwy gyflawni pob un o'r amcanion 'codi'r gwastad':

- Hybu cynhyrchiant, cyflog, swyddi a safonau byw drwy dyfu'r sector preifat, yn enwedig yn y mannau hynny ble maent ar ei hôl hi.
- Lledaenu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig yn y mannau hynny ble maent ar eu gwannaf.
- Adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, yn enwedig yn y mannau hynny ble maent wedi'u colli
- Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol, yn enwedig yn y mannau hynny sydd heb asiantaeth leol.

Dyddiad gorffen cyflwyno'r rhaglen yw 31 Rhagfyr 2024. Dyrannwyd £132 miliwn i Dde-orllewin Cymru a disgwylir i Abertawe dderbyn £34.4 miliwn ohono. Bydd cyfnod ymgeisio cychwynnol yn cau ar 29 Mawrth 2023 a disgwylir ail rownd ym mis Mehefin 2023.

Mae Abertawe'n gweithredu chwe phrosiect 'angor' ar themâu allweddol y rhaglen sy'n cyd-fynd â strategaethau corfforaethol a phartneriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o fesurau cymorth, gweithgareddau a gomisiynir a chynlluniau grant trydydd parti. Dylid ceisio rhagor o wybodaeth gan Gyngor Abertawe, yn enwedig ynghylch:

- **Angor Cefnogi Cymunedau**: Arian grant ar gyfer prosiectau cymunedol / trydydd sector. Mae amrywiaeth o grantiau ar gael i gefnogi grwpiau a sefydliadau lleol i wella mannau, cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol lleol. Bydd grantiau'n cefnogi datblygu cyfalaf cymdeithasol, datblygu'n seiliedig ar asedau a gwirfoddoli effeithiol.
- **Angor Trawsnewid Lleoedd y Sir**: Gwelliannau ar raddfa fach i ganol trefi a phentrefi – seilwaith glasu / glas dan arweiniad yr awdurdod lleol a gwelliannau i fannau cyhoeddus mewn trefi a phentrefi yn y sir.
- **Angor Gwledig**: Prosiect sy'n olynu'r Rhaglen Datblygu Gwledig sy'n darparu cyllid ar gyfer datblygu cymunedau gwledig, newid hinsawdd a gweithgareddau sero net a gweithgareddau busnes gwledig.

Mae **Y Pethau Pwysig (Croeso Cymru / Busnes Cymru)** yn gronfa gyfalaf i gyflawni gwelliannau isadeiledd twristiaeth ar raddfa fach ledled Cymru. Mae'r grant ar gael hyd at £300,000 gydag uchafswm cyfradd ymyrraeth o 80%. Nid oes isafswm grant. Mae'r rownd bresennol o gyllid yn agored i Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Y dyddiad cau ar gyfer Datgan Diddordeb yw 16 Mawrth 2023. Rhaid gwario a hawlio'r gwariant llawn erbyn 31 Mawrth 2025. Dylai partneriaid holi am gylchoedd ariannu'r dyfodol.

Amcanion y gronfa yw:

- Buddsoddi mewn prosiectau seilwaith bach sydd o fudd i gymunedau ac ymwelwyr mewn lleoliadau twristiaeth strategol bwysig.
- Datblygu prosiectau isadeiledd o ansawdd uchel sy'n cefnogi'r cynnig twristiaeth ehangach mewn cyrchfannau gan roi profiad cofiadwy i ymwelwyr drwy gydol eu harhosiad.
- Cefnogi cyfleusterau sylfaenol i aros ar agor drwy'r flwyddyn a darparu ar gyfer ymwelwyr gyda'r nos tan yn hwyr.

Ar gyfer y rownd ariannu hon, mae’r flaenoriaeth yn canolbwyntio ar 4 maes allweddol:

- Lliniaru pwyntiau pwysau. Dod o hyd i atebion isadeiledd i oresgyn pwysau ar ardaloedd o ganlyniad i gynnydd yn nifer yr ymwelwyr.
- Cyrchfannau amgylcheddol gynaliadwy. Datblygu isadeiledd newydd neu drawsnewid isadeiledd presennol i wneud y gyrchfan yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol, a thrwy hynny helpu i leihau’r ôl troed carbon.
- Twristiaeth Gynhwysol / Hygyrchedd. Cefnogi prosiectau sy'n symud rhwystrau ac atalfeydd o fewn cyrchfan a gwella mynediad pawb i gyfleusterau.
- Gwella cynnyrch cenedlaethol, er enghraifft, prosiectau sy'n gwella ac yn codi proffil Llwybr Arfordir Cymru.

Yr hyn sy’n bwysig i Langyfelach o ran gweithgareddau a llwybrau hamdden awyr agored yw Blwyddyn y Llwybr Croeso Cymru a dyhead Cyngor Abertawe i ddarparu cymorth pellach i wardiau gogleddol i ledaenu buddion twristiaeth a lleddfu rhywfaint o’r pwysau yn ardaloedd y de yn ystod cyfnodau brig. Cafodd **Grant Twristiaeth Cyngor Abertawe** ei sicrhau'n ddiweddar mewn ardaloedd cyfagos.

Mae **Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair** yn cynnig grantiau i sefydliadau sy’n darparu gwasanaethau, cyfleusterau neu weithgareddau sydd o fudd i’r cymunedau o fewn ardaloedd Cynghorau Cymuned / Tref **Llangyfelach**, Pontlliw a Thircoed, Pontarddulais, Mawr, Penllergaer, Clydach a Threforys.

Mae ceisiadau ar agor ar gyfer Grantiau Bach hyd at £10,000 a grantiau Canolig hyd at £30,000 i fudiadau trydydd sector, mentrau cymdeithasol, ysgolion a Chynghorau Tref a Chymuned yn y meysydd budd.

Mae’r cyllid cymunedol o Fferm Wynt Mynydd y Gwair yn gyllid cynaliadwy hirdymor, a disgwylir iddo ddosbarthu tua £6 miliwn dros oes weithredol 25 mlynedd y prosiect.

Mae enghreifftiau diweddar o geisiadau cyllid llwyddiannus mewn ardaloedd cyfagos yn cynnwys:

- Cymdeithas Neuadd Les Garnswllt (GWHA) – £26,995 – i osod system diogelwch tân, goleuadau allanol a ramp mynediad.

- Cyngor Cymuned Mawr – £9,096.44 – ar gyfer ffensys a giatiau i amgáu'r caeau pêl-droed ar Ffordd Rhyddwen, Craig Cefn Parc.
- Ysgol Gyfun Pontarddulais – £10,000 – i atgyweirio lloriau yn y Neuadd Chwaraeon a MUGA at ddefnydd yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Gellir ystyried y grant hwn fel arian rhannol ar gyfer codi ffensys o gwmpas tir Neuadd y Sgowtiaid a gwelliannau i'r Neuadd Eglwys / Gymunedol (yn ddibynnol ar gyfyngiadau cyllido).

Mae **Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru** yn gyfle i gymunedau hybu ymdrechion codi arian at achosion da yn eu hardal. Rhoddir blaenoriaeth i'r prosiectau hynny ble mae Dŵr Cymru'n gweithio, neu wedi bod yn gweithio. Mae'r gronfa'n cyfrannu hyd at £1,000 at brosiectau a fydd o fudd i'r gymuned, fel:

- Gwelliannau i'r amgylchedd neu fentrau cymunedol lleol sy'n hybu amcanion iechyd, lles ac amgylcheddol.
- Gweithgareddau a gyflawnir gan grwpiau cymunedol cofrestredig (yn benodol gydag amcanion iechyd, lles, amgylcheddol).
- Gwella a chefnogi gweithgaredd addysg lleol (e.e. effeithlonrwydd dŵr, gwaith amgylcheddol).

Unwaith y bydd y gronfa flynyddol ddynodedig wedi cael ei gwario, bydd y gronfa'n cau tan y flwyddyn ariannol ganlynol.

Ymysg enghreifftiau llwyddiannus lleol mae'r prosiectau cymunedol ym Mawr.

Bydd y gronfa gymunedol yn newid o'r Cyntaf o Fai 2023 – ni chyhoeddwyd manylion eto.

7. Casgliadau cryno ac argymhellion allweddol

7.1. Casgliadau cryno

Y cysyniad, a ddatblygwyd gyda **Chyngor Cymuned Llangyfelach, Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach ac Eglwys Dewi Sant a Chyfelach**, oedd archwilio cyfleoedd i ehangu ar gyfleusterau a gwasanaethau a defnyddio mannau awyr agored o amgylch **lawnt y pentref** fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig i gymunedau lleol. Cafodd nifer o brosiectau'u hystyried eisoes gan y partneriaid, sy'n gynrychiolwyr lleol a thrigolion Llangyfelach. Llywiwyd y rhain gan eu gwybodaeth o'r ardal a thrafodaethau gyda'r gymuned ehangach. Rhoddwyd sawl cam ymgysylltu ar waith i sicrhau bod y cynigion yn ymateb i anghenion trigolion ac ymwelwyr a bod y gymuned yn ymwybodol ohonynt ac yn gallu helpu i'w ffurfio.

Roedd y prosiectau a amlygwyd ar gyfer eu datblygu ymhellach i fod yn gynnig cyflenwol a chydlynol yn cynnwys:

- Neuadd y Sgowtiaid – cyfleusterau ychwanegol a lle allanol
- Neuadd Eglwys / Gymunedol – cyfleusterau a gwasanaethau ychwanegol
- Tiroedd Eglwys Dewi Sant a Chyfelach – datblygu gerddi cymunedol ymhellach
- Cysylltiadau rhwng mannau allanol

Cafodd y rhain eu mireinio i gynnwys:

- Mwy o bwyslais ar ddefnyddio lle allanol ar gyfer Neuadd y Sgowtiaid a thiroedd
- Adnewyddu ardal y brif neuadd o fewn y Neuadd Eglwys / Gymunedol
- Clirio gordyfiant a gwaith adfer i lwybrau a llwybrau mynediad ar dir yr Eglwys
- Pwyslais ar gysylltiadau rhwng llwybrau mynediad y gwahanol gyfleusterau a'u defnyddiau cyflenwol

Mae'r rhan fwyaf o ardal yr astudiaeth yn eiddo i'r Eglwys yng Nghymru a'r Grŵp Sgowtiaid (6ed Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach).

Mynegwyd diddordeb gwirioneddol o du'r gymuned am yr hyn sydd angen ei gael yn yr ardal, a'r rôl gymdeithasol a hamdden bwysig y gall y cynigion hyn eu chwarae.

Cafodd problemau, heriau a chyfleoedd meintiol ac ansoddol allweddol sy'n codi o'r proffil economaidd-gymdeithasol, ymchwil i'r llenyddiaeth a thrafodaethau gyda phartneriaid prosiect a phobl leol eu dehongli mewn dadansoddiad SWOT. Mae hyn wedi llywio cyfle'r 'Farchnad', egwyddorion datblygu a chymharu opsiynau datblygu – gan alluogi cymharu rhesymeg, nodau a chanlyniadau gweithredol / cyflawni er mwyn cynyddu cryfderau a chyfleoedd, mynd i'r afael â gwendidau a lliniaru effaith bygythiadau.

Mae'r ymchwil, yr ymgynghoriad a'r asesiad safle'n dangos cefnogaeth gref ar gyfer datblygu mannau allanol a chyfleusterau cyflenwol ymhellach i ddiwallu'n llawnach anghenion 'cymunedol' a phartneriaid, mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth a gwella'r gwaith o gynnal a chadw tir Neuadd y Sgowtiaid a thir yr Eglwys, gan ddod â nhw'n ôl i ddefnydd cynaliadwy, creu mannau o ddiddordeb a denu mwy o fywyd gwyllt / bioamrywiaeth.

Prif grwpiau defnyddwyr y datblygiadau newydd fydd:

Cynradd

Marchnad breswyl leol

- Yn bennaf o fewn amser gyrru o 10 munud. Mae'n debygol mai'r farchnad / gynulleidfa allweddol fydd trawstoriad o'r gymuned leol; teuluoedd, plant ifanc, arddegwyr, pobl wedi ymddeol, ungiolion ynysig a cherddwyr hamdden.

Aelodau sefydliadau partner

- Diddordebau penodol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â sefydliadau partner gan gynnwys Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach, Eglwys Dewi Sant a Chyfelach a gwasanaethau Cyngor Cymuned Llangyfelach. Er bod y rhain yn debygol o fod o fewn 10 munud yn bennaf, mae natur eu harbenigedd / diddordebau a chyfyngiadau ar argaeledd gwasanaethau / cyfleusterau tebyg mewn ardaloedd cyfagos yn golygu bod eu hapêl yn ymestyn ymhellach.

Ymweliadau dysgu / addysgol lleol

- Ystod o gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol ynghylch bioamrywiaeth, gweithgareddau amgylcheddol a choed
- Ymweliadau ysgol a grwpiau diddordeb arbenigol.

Cynulleidfaoedd eilaidd

Y farchnad ymwelwyr

- Gall y farchnad cyfeillion a pherthnasau sy'n ymweld (VFR) fod yn rhan gymedrol o'r cymysgedd ymwelwyr.
- Cyfleoedd i gysylltu ag atyniadau cyfagos megis Coed Dyffryn Penllergaer. Byddai hyn yn debygol o fod yn fwy cyfyngedig o ran maint ac yn dibynnu ar boblogrwydd y goedwig a diddordeb mewn archwilio ardaloedd cyfagos ar hyd llwybrau a lonydd (fel y rhai sy'n cysylltu pentref Llangyfelach trwy Ffordd Penplas) e.e. apelio at ddiddordebau / demograffeg 'niche' a'r rhai sy'n lleol i Abertawe neu'r cyffiniau cyfagos.

Bu sawl **egwyddor datblygu** yn sail i'r broses o gynhyrchu opsiynau a'r broses arfarnu.

Adnoddau cymunedol cyflenwol sy'n darparu cyfleoedd cymdeithasol a hamdden ar gyfer y gymuned leol ac aelodau sefydliadau partner yn bennaf, gyda pheth apêl i'r farchnad ymwelwyr:

- **Ehangu ar gyfleusterau a gwasanaethau a defnyddio lle allanol o amgylch lawnt y pentref fel adnodd cymdeithasol a hamdden pwysig i gymunedau lleol.**
- **Diwallu angen 'cymunedol' yn llawnach a bod yn hygyrch i ystod eang o ddefnyddwyr**
- **Mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth yn enwedig o ran mynediad i fannau allanol**
- **Darparu ar gyfer twf poblogaeth arfaethedig yn yr ardal**
- **Gwella'r gwaith o gynnal a chadw tir Neuadd y Sgowtiaid a thir yr Eglwys, gan ddod â nhw'n ôl i ddefnydd cynaliadwy**

Cymharwyd tair lefel o opsiynau ymyrraeth / datblygu o ran maint a ffurf:

- Opsiwn un: Sylfaenol – parhau fel y mae
- Opsiwn dau: Datblygu lleoedd awyr agored a chyfleusterau cydweddol ymhellach fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig
- Opsiwn tri: Adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysiggyda mwy o apêl ehangach i'r farchnad ymwelwyr

Cymhwyswyd matrics ar gyfer pob opsiwn i alluogi asesiad gwrthrychol a chymaradwy. Roedd hyn yn cynnwys un ar ddeg o feini prawf yn seiliedig ar ddyheadau, anghenion cymunedol ac egwyddorion datblygu Cyngor Cymuned Llangyfelach, Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach ac Eglwys Dewi Sant a Chyfelach.

Yr opsiwn a sgoriodd uchaf o gryn dipyn oedd **Opsiwn dau: Datblygu mannau awyr agored a chyfleusterau cyflenwol ymhellach fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig** gyda sgôr wedi'i phwysoli o 78.00. Mae'r opsiwn hwn yn diwallu angen 'cymunedol' yn llawnach fel y'i nodwyd gan bartneriaid, yr ymgynghoriad ac ymchwil sylfaenol yr astudiaeth hon, mae'n gwireddu dyheadau partneriaid, yn darparu ar gyfer anghenion y gymuned a demograffeg newidiol, yn mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ac yn gwella'r gwaith o gynnal a chadw tir Neuadd y Sgowtiaid a thir yr Eglwys, gan ddod â nhw'n ôl i ddefnydd cynaliadwy, gan greu mannau o ddiddordeb a denu mwy o fywyd gwyllt / bioamrywiaeth.

Er bod **pob cynnig yn gallu sefyll ar ei ben ei hun a bod iddo fuddion i ddemograffeg benodol y gymuned, gwelir yr effaith fwyaf trwy wireddu pecyn cyflenwol o gynigion sy'n diwallu anghenion aelodau 'cymunedol' a sefydliadau partner yn llawnach, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'r effaith orau, mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ac apelio at ystod eang o ddefnyddwyr.**

Gan fod y rhan fwyaf o ardal yr astudiaeth yn eiddo i'r Eglwys yng Nghymru a'r Grŵp Sgowtiaid (6ed Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach) byddai angen i'r ddau sefydliad arwain camau datblygu gan dynnu ar Gyngor Cymuned Llangyfelach a chymorth ac arbenigedd partneriaid eraill yn ôl yr angen.

Mae gan y cyngor a'r Grŵp Sgowtiaid yn arbennig hanes llwyddiannus o sicrhau cyllid, ac mae gan bob partner brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau a gwasanaethau.

Mae'r bartneriaeth wedi cydnabod y bydd cyfyngiadau ar gyllid o bryd i'w gilydd yn ymwneud â thir yr Eglwys a'r Neuadd Eglwys / Gymunedol. Mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â'r potensial i ffurfio Grŵp Cyfeillion ar dir yr Eglwys ac i un o'r partneriaid brydlesu / rheoli'r Neuadd Eglwys / Gymunedol a fydd yn helpu gyda buddsoddiad yn y dyfodol a'r gallu i gael mynediad at ffynonellau cyllid sydd ar gael.

Y **ffactor risg unigol mwyaf o ran gallu cyflawni'r cynigion yw sicrhau'r adnoddau cyfalaf angenrheidiol.** Cafodd sawl eitem greiddiol eu hamlygu sy'n hanfodol ar gyfer cyflawni uchelgais y partneriaid a'r gymuned. Mae ateb y costau cyfalaf llawn a gysylltir â'r rhain y tu hwnt i adnoddau'r partneriaid. Bydd angen cytuno ar **Strategaeth Ariannu** i roi trosolwg o gamau gweithredu, amserlenni a ffynonellau / dulliau ariannu posibl i gyflawni'r opsiwn a ffefrir.

Mae sawl ffynhonnell ariannu wedi'u hamlygu ar gyfer ymchwiliad pellach:

- Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) – Cyngor Abertawe yw'r awdurdod arweiniol rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru
- Y Pethau Pwysig (Croeso Cymru / Busnes Cymru)
- Grant Twristiaeth Cyngor Abertawe
- Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair
- Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru

Bydd costau refeniw, gan gynnwys capasiti gan bartneriaid, yn parhau i gael ei ddarparu.

7.2. Argymhellion allweddol

Drwy adeiladu ar y dadansoddiad ac adolygu'r egwyddorion datblygu a'r dewisiadau datblygu, daethpwyd at chwe argymhelliad.

Argymhelliad 1 – Dylid mynd ar drywydd yr opsiwn a ffefrir: **'Datblygu rhagor o leoedd awyr agored a chyfleusterau cyflenwol fel adnoddau cymdeithasol a hamdden pwysig'.**

Argymhelliad 2 – Dylid datblygu cynigion a'u cyflwyno fel **pecyn cydlynol a chyflenwol sy'n gwneud defnydd llawn o'r ystod o gyfleusterau ac adnoddau ac sy'n apelio at ystod eang o ddefnyddwyr.**

Argymhelliad 3 – **Yr Eglwys yng Nghymru / grŵp gwirfoddol a Grŵp y Sgowtiaid (6ed Grŵp Sgowtiaid Llangyfelach) ddylai fod yn arweinwyr ar gyfer y cyfnodau datblygu gan dynnu ar Gyngor Cymuned Llangyfelach** a chefnogaeth ac arbenigedd partneriaid eraill yn ôl yr angen.

Argymhelliad 4 – Dylid cytuno ar **Strategaeth Ariannu** i roi trosolwg o gamau gweithredu, amserlenni a ffynonellau / dulliau ariannu posibl i gyflawni'r opsiwn a ffefrir. Dylid ymchwilio ymhellach i sawl ffynhonnell ariannu gyda golwg ar gyflwyno ceisiadau am yr adnoddau cyfalaf angenrheidiol.

Argymhelliad 5 – Dylid rhoi ystyriaeth bellach i fanteision a chymhlethdodau **ffurfio Grŵp Cyfeillion ar gyfer tir yr Eglwys** gyda golwg ar barhau â'r hyn a gyflawnwyd gan y grŵp gwirfoddol ymroddedig ac agor mwy o gyfleoedd i sicrhau cyllid.

Argymhelliad 6 – Dylid cael trafodaethau pellach i ddod i gytundeb ynghylch **a yw'n ymarferol i un o'r partneriaid brydlesu / rheoli'r Neuadd Eglwys / Gymunedol**.

Cedwir pob hawl ©

Swyddfa Cymru

Unit 2, 21-25 West End, Llanelli, Sir Gâr / Carmarthenshire, SA15 3DN

Phone / Ffôn: +44 (0)1554 780170

Swyddfa Llundain

28 Marshalsea Road, Llundain SE1 1HF

Phone / Ffôn: +44 (0)20 7403 4135

The means Limited. Swyddfa Gofrestredig

80-83 Long Lane, Llundain EC1A 9ET

Gwefan: ***www.themeans.co.uk***